# Lefel 1/Lefel 2 TAAU Teithio a Thwristiaeth

## Manyleb Ddrafft

I'w haddysgu o fis Medi 2027
Dyfarniad Cyntaf 2029

Manyleb DRAFFT yw hon. Felly, dylai canolfannau ddisgwyl rhai newidiadau yn y fersiwn derfynol a gyhoeddir ym mis Medi 2026.

DRAFFT

| | |
|---|---|
| Teitl y cymhwyster | CBAC Lefel 1/Lefel 2 TAAU Teithio a Thwristiaeth |
| Amcanion y cymhwyster | Cyflwyno gwybodaeth a sgiliau ymarferol sector-benodol i ddysgwyr sy'n eu paratoi ar gyfer astudiaeth bellach neu brentisiaethau, tra'n meithrin datblygiad personol ac ymgysylltu trwy ddysgu cymhwysol. |
| Cod Cymhwyster CBAC | |
| Rhif QiW | |
| Grwpiau oedran cymeradwy | 14-16, 16-19, 19+ |
| Addysgu am y tro cyntaf | Medi 2027 |
| Ardystio am y tro cyntaf | Haf 2029 |

| Fersiwn | Disgrifiad | Dyddiad |
|---|---|---|
| | | |
| Gall ein manylebau newid dros amser. Bydd CBAC yn rhoi gwybod i ganolfannau am unrhyw ddiwygiadau a bydd y fersiwn diweddaraf o'r fanyleb ar y wefan bob amser. | | |

Mae'r fanyleb hon yn bodloni gofynion y dogfennau rheoleiddio canlynol a gyhoeddwyd gan Cymwysterau Cymru:

- Meini Prawf Cymeradwyo Cymwysterau TAAU sy'n nodi'r gofynion ar gyfer cymwysterau TAAU a gymeradwywyd i'w haddysgu gyntaf o fis Medi 2027 a thu hwnt.
- Amodau Cydnabod Safonol sy'n cynnwys y rheolau y mae'n rhaid i bob corff dyfarnu a'u cymwysterau eu bodloni wrth gynnig cymwysterau i ddysgwyr yng Nghymru.

**Hawlfraint**
© WJEC CBAC Limited 2026.

## Grymuso dysgwyr, cefnogi athrawon

Fel corff dyfarnu mwyaf Cymru, mae gennym fwy na 75 mlynedd o brofiad yn cyflwyno cymwysterau o safon y gellir ymddiried ynddynt ac yn cefnogi dysgwyr, addysgwyr, a chyflogwyr ledled Cymru.

Darparwn amrywiaeth eang o gymwysterau dwyieithog sy’n hygyrch, deniadol, ac wedi’u cynllunio i fodloni anghenion dysgwyr heddiw.

I ategu ein cymwysterau mae gennym dimau pynciol arbenigol, adnoddau o safon, a chefnogaeth arbenigol, ymatebol. Y cydweithio agos ag ysgolion, colegau, consortia rhanbarthol, arbenigwyr sector a Cymwysterau Cymru sy’n llywio ac yn llunio ein gwaith.

Ni yw’r unig gorff dyfarnu sy’n cynnig cymwysterau ym mhob cyfres o’r hyn sydd ar gael fel Cymwysterau Cenedlaethol 14-16. Rydym yn falch iawn felly o fod â rôl allweddol yn cefnogi dyhead Llywodraeth Cymru i wneud addysg yng Nghymru yn rhywbeth y gall y genedl fod yn falch ohono. Mae’n ymrwymiad gennym i helpu pob dysgwr i gyflawni ei botensial ac i symud ymlaen yn hyderus.

## Deniadol, ymarferol, ac wedi'u hadeiladu ar gyfer cynnydd

Mae ein cymwysterau Tystysgrif Alwedigaethol Addysg Uwchradd (TAAU) wedi'u cynllunio i ysbrydoli a chefnogi dysgwyr 14-16 oed, gan gynnig rhaglen dros ddwy flynedd sy’n hygyrch, deniadol, ac wedi'i gwreiddio mewn dysgu yn y byd go iawn. Gyda phwyslais cryf ar weithgareddau a phrofiad ymarferol, mae'r cymwysterau hyn yn helpu dysgwyr i feithrin hyder, datblygu sgiliau hanfodol, a chyflawni llwyddiant ystyrlon.

Mae cymwysterau TAAU yn cynnwys unedau, gan ganiatáu i ddysgwyr gwblhau rhai asesiadau ym Mlwyddyn 10 ac eraill ym Mlwyddyn 11. Gyda’r hyblygrwydd hwn, mae’n bosibl gwneud cynnydd cyson, mae llai o bwysau asesu, ac mae’r dysgwyr yn cael y cyfle i ddangos yr hyn maen nhw’n ei gyflawni drwy gydol y cwrs. Ar gyfer ein cymwysterau TAAU, mae asesiadau allanol wedi'u cynllunio er mwyn asesu gwybodaeth sylfaenol a gellir eu cwblhau tua dechrau'r cwrs, gan roi mwy o amser i ddysgwyr ganolbwyntio ar ddatblygu sgiliau lefel uwch. Mae'r strwythur hwn yn ychwanegu trylwyredd a hygrededd i'r cymhwyster tra’n helpu i leihau llwyth gwaith athrawon.

Oherwydd eu natur gydadferol, mae ein cymwysterau TAAU yn cydnabod y cryfderau sydd gan ddysgwyr ar draws y gwahanol unedau. Gall cyflawniad uchel mewn un maes wrthbwyso perfformiad is mewn maes arall, gan hyrwyddo profiad asesu mwy cynhwysol a chefnogol.

Gyda chynnwys sy'n berthnasol, yn ysgogol ac wedi'i deilwra i anghenion dysgwyr, mae cymwysterau TAAU CBAC yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer symud ymlaen i astudiaeth bellach ar Lefelau 1 i 3. P'un a yw dysgwyr yn parhau i astudio'r pwnc ai peidio, byddan nhw'n ennill gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau gwerthfawr, gan deimlo eu bod wedi cyflawni mewn ffordd sy'n eu paratoi ar gyfer bywyd, dysgu a gwaith.

© WJEC CBAC Ltd.2026.

DRAFT

Cynnwys


Grymuso dysgwyr, cefnogi athrawon ........ 3
Crynodeb o'r asesu ........ 5
1.Cyflwyniad ........ 6
1.1. Pwrpas a nodau ........ 6
1.2. Cwricwlwm i Gymru ........ 7
1.3. Dysgu blaenorol a dilyniant ........ 8
1.4. Oriau dysgu dan arweiniad (ODA) a Chyfanswm Amser Cymhwyso (CAC) ........ 8
1.5. Y defnydd o iaith ........ 9
1.6. Cydraddoldeb a mynediad teg ........ 9
2.Unedau ........ 10
2.1 Fformat yr unedau ........ 10
2.2 Sut i ddarllen yr ymhelaethiad ........ 10
2.3 Cynnwys ........ 11
Uned 1 Cyflwyniad i'r diwydiant teithio a thwristiaeth ........ 12
Cyfleoedd ar gyfer integreiddio profiadau dysgu sy'n ymwneud â'r byd gwaith ........ 18
Uned 2 Cyrchfannau i Dwristiaid ........ 19
Cyfleoedd ar gyfer integreiddio profiadau dysgu sy'n ymwneud â'r byd gwaith ........ 23
Uned 3 Teithio a Thwristiaeth ar Waith ........ 24
Cyfleoedd ar gyfer integreiddio profiadau dysgu sy'n ymwneud â'r byd gwaith ........ 29
3.Asesu ........ 30
3.1. Amcanion Asesu a Phwysoliadau ........ 30
3.2. Trosolwg o'r asesu ........ 31
3.3. Rheoli'r asesiad di-arholiad ........ 32
Gosod Tasgau ........ 32
Gwneud Tasgau ........ 32
Marcio Tasgau ........ 33
3.4. Ailgyflwyno asesiadau di-arholiad ........ 33
3.5. Camymddwyn ........ 34
4.Gwybodaeth Dechnegol ........ 35
4.1. Cofrestriadau unedau ........ 35
4.2. Cofrestru ar gyfer y cymhwyster ........ 35
4.3. Graddio ac adrodd yn ôl ........ 36
4.4. Ailsefyll asesiadau unedau ........ 36
4.5. Ailwneud y cymhwyster ........ 37
Atodiad A: Cyfleoedd i ymgorffori elfennau o'r Cwricwlwm i Gymru ........ 38


DRAFT

© WJEC CBAC Ltd.2026.

# Crynodeb o'r asesu

| |
|---|
| **Uned 1: Cyflwyniad i'r diwydiant teithio a thwristiaeth**<br>**Asesiad allanol (prawf sector): 1 awr**<br>**20% o'r cymhwyster**<br>**50 marc** |
| Wedi'i osod a'i farcio gan CBAC<br>Ar gael mewn dau fformat: ar bapur ac ar sgrin<br>Cwestiynau dewis lluosog, prawf gwrthrychol ac atebion byr, rhai ohonyn nhw'n seiliedig ar sefyllfaoedd cymhwysol. |
| **Uned 2: Cyrchfannau i Dwristiaid**<br>**Asesiad di-arholiad: 6 awr**<br>**20% o'r cymhwyster**<br>**50 marc** |
| Wedi'i osod a'i farcio gan CBAC.<br>Bydd yr asesiad yn cynnwys tair tasg sy'n seiliedig ar friff yr aseiniad. Bydd y briff ar gael ar safle Porth CBAC ym mis Medi yn y flwyddyn astudio gyntaf. Bydd y briff yn newid bob blwyddyn (dwy gyfres). |
| **Uned 3: Teithio a Thwristiaeth ar Waith**<br>**Asesiad di-arholiad: 15 awr**<br>**60% o'r cymhwyster**<br>**90 marc** |
| Wedi'i osod gan CBAC, ei farcio gan y Ganolfan a'i gymedroli'n allanol gan CBAC. Bydd yr asesiad yn cynnwys pum tasg sy'n seiliedig ar friff yr aseiniad. Bydd yr asesiad ar gael drwy Borth CBAC a bydd yn aros yr un fath drwy gydol oes y fanyleb |

Cymhwyster unedol yw hwn.

Nid yw'n cynnwys haenau.

Mae'r cymhwyster yn cynnwys **tair uned orfodol**.

Ac eithrio Uned 1, sy'n uned ragarweiniol, nid yw trefn gyflwyno'r ddwy uned arall yn awgrymu unrhyw hierarchaeth. Felly, nid oes yma awgrym o drefn addysgu benodol.

Bydd Unedau 1 a 2 ar gael am y tro cyntaf ym mis Ionawr 2028 ac yna byddant ar gael yng nghyfres yr haf ac yng nghyfres mis Ionawr bob blwyddyn.

Bydd Uned 3 ar gael am y tro cyntaf ym mis Ionawr 2029 ac yna bydd ar gael yng nghyfres yr haf ac yng nghyfres mis Ionawr bob blwyddyn.

Bydd y cymhwyster yn cael ei ddyfarnu am y tro cyntaf ym mis Ionawr 2029.

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd.2026.

# 1.Cyflwyniad

## 1.1. Pwrpas a nodau

Mae Tystysgrifau Galwedigaethol Addysg Uwchradd (TAAU) CBAC wedi'u cynllunio i ddiwallu anghenion dysgwyr rhwng 14 a 16 oed, gan ddarparu profiadau dysgu perthnasol ac ystyrlon sy'n adlewyrchu eu cam datblygiad. Mae'r cymwysterau wedi'u gwreiddio'n gadarn yng nghyd-destun Cymru ac economi Cymru, gan sicrhau bod dysgwyr yn ymgysylltu â chynnwys sy'n ddilys yn lleol ac yn arwyddocaol yn genedlaethol.

Maent yn cynnig cynnwys ac asesiadau deniadol a hygyrch sy'n cefnogi datblygu sgiliau ymarferol, gwybodaeth a dealltwriaeth. Drwy gyd-fynd â'r Cwricwlwm i Gymru, mae'r cymwysterau hyn yn cyfrannu at wireddu ei bedwar diben a'i egwyddorion cynnydd, gan helpu dysgwyr i fod yn uchelgeisiol, yn alluog ac yn barod i ddysgu drwy gydol eu hoes.

Yn ogystal, mae cymwysterau TAAU yn cefnogi dysgwyr i ddatblygu ymwybyddiaeth o gyfleoedd cyflogaeth a llwybrau i astudiaeth ôl-16, gan gynnwys cyrsiau galwedigaethol sy'n arwain at gymhwysedd galwedigaethol. Mae hyn yn sicrhau bod dysgwyr wedi'u paratoi'n dda ar gyfer eu camau nesaf, boed hynny mewn addysg, hyfforddiant, neu fyd gwaith.

Mae Tystysgrifau Galwedigaethol Addysg Uwchradd CBAC yn:

- darparu sylfaen eang ar gyfer symud ymlaen i astudiaeth ôl-16, gan gynnwys astudiaeth alwedigaethol ar Lefel 1 i 3 fel y bo'n briodol
- caniatáu i Ddysgwyr ddatblygu amrywiaeth o wybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau, gyda phwyslais ar sgiliau ymarferol
- darparu cyfleoedd i Ddysgwyr gael eu hasesu mewn ffyrdd perthnasol, deniadol ac ystyrlon, gan ddefnyddio technoleg lle bo hynny'n briodol
- darparu cyfleoedd, lle y bo'n briodol, i Ddysgwyr ddatblygu:
    - sgiliau trawsgwricwlaidd llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol fel y nodir yn y Cwricwlwm i Gymru
    - y sgiliau cyfannol a nodir yn y Cwricwlwm i Gymru
    - dealltwriaeth o gynaliadwyedd yn y byd gwaith
- darparu cyfleoedd, lle y bo’n briodol, i Ddysgwyr ymgysylltu ag agweddau perthnasol ar themâu trawsgwricwlaidd:
    - cyd-destunau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol
    - amrywiaeth
    - hawliau dynol
    - addysg cydberthynas a rhywioldeb (ACRh)
- bod yn gydnaws â lefel(au) priodol y Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru (FfCChC) bod yn gydnaws â lefel(au) priodol y Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru (FfCChC)

Mae'r nodau hyn yn cyd-fynd â'r nodau a nodir ym Meini Prawf Cymeradwyo TAAU Cymwysterau Cymru.

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd.2026.

Nod TAAU mewn Teithio a Thwristiaeth yw:

- hyrwyddo dealltwriaeth o'r diwydiant teithio a thwristiaeth, gan gynnwys y sectorau a'u swyddogaethau, rolau swyddi a'r economi ymwelwyr yng Nghymru
- ymgorffori gwybodaeth hanfodol am nodweddion a phriodoleddau cyrchfannau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol i dwristiaid yn ogystal â chymhellion a ffactorau sy'n dylanwadu ar deithio er mwyn datblygu proffiliau twristiaid
- meithrin dealltwriaeth o effaith teithio a thwristiaeth ac arferion cynaliadwy ar gyfer y dyfodol
- datblygu sgiliau ymarferol sy'n berthnasol i deithio a thwristiaeth gan gynnwys defnyddio data i ddeall effeithiau economaidd, ymchwilio, marchnata, cyfathrebu a gwerthuso
- cyfoethogi galluoedd datrys problemau a chynllunio drwy gynllunio teithiau, deall a gwybod sut i ddiwallu anghenion ymwelwyr, cyllidebu, deall adborth a gwneud awgrymiadau ar gyfer gwella
- meithrin sgiliau cyflogadwyedd trosglwyddadwy megis cynllunio a threfnu, rheoli amser a chyfathrebu o fewn cyd-destun teithio a thwristiaeth
- paratoi dysgwyr ar gyfer symud ymlaen i astudiaeth bellach, prentisiaethau, neu gyflogaeth yn y diwydiant teithio a thwristiaeth.

## 1.2. Cwricwlwm i Gymru

Fframwaith Cwricwlwm i Gymru yw sail y cymhwyster TAAUTeithio a Thwristiaeth hwn. Cafodd ei lunio er mwyn sicrhau y gall dysgwyr barhau i wneud cynnydd tuag at y pedwar diben gan astudio ar gyfer y cymhwyster hwn ar yr un pryd. Yn ganolog i'r lluniad hwn y mae'r egwyddorion cynnydd, ynghyd â'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig  ym Maes Dysgu a Phrofiad Y Dyniaethau.

Wrth ddatblygu'r cymhwyster hwn, ystyriwyd lle byddai cyfleoedd i ymgorffori'r themâu trawsgwricwlaidd a chyfleoedd yn ogystal i feithrin sgiliau cyfannol a sgiliau trawsgwricwlaidd. Mae mapio syml i'w weld yn Atodiad A, a bydd y Canllawiau Addysgu yn cynnwys gwybodaeth i gefnogi athrawon.

Ystyriwyd hefyd lle gall y cymhwyster greu cyfleoedd i integreiddio'r profiadau dysgu a nodwyd yn adran 2.3; bydd gwybodaeth bellach i'w chael yn y Canllawiau Addysgu o ran integreiddio'r profiadau dysgu hyn wrth gyflwyno'r cymhwyster.

Mae'r cymhwyster TAAU  Teithio a Thwristiaeth  yn berthnasol i'r Cwricwlwm i Gymru ac yn ei gefnogi drwy:

- gefnogi datganiadau o'r hyn sy'n bwysig Y Dyniaethau[1], gan roi cyfle i ddysgwyr:
  - feithrin dealltwriaeth ddyfnach o'r cysyniadau sy'n sail i deithio a thwristiaeth, a'u cymhwysiad mewn cyd-destunau lleol, cenedlaethol a byd-eang
  - dehongli a syntheseiddio gwybodaeth er mwyn dod i gasgliadau am effeithiau a thueddiadau mewn teithio a thwristiaeth
  - dysgu sut y gall amrywiol fydolygon a ffactorau ddylanwadu ar eu canfyddiadau nhw eu hunain a rhai pobl eraill o gyrchfannau i dwristiaid ac effaith teithio a thwristiaeth
  - nodi beth sy'n gwneud lleoedd neu gyrchfannau a mannau'n wahanol a datblygu ymwybyddiaeth o'r cysylltiadau sydd rhwng bodau dynol a'u hamgylchedd
  - deall, fel cynhyrchwyr a defnyddwyr, eu heffaith nhw eu hunain a phobl eraill ar y byd naturiol

[1] https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/y-dyniaethau/datganiadau-o-r-hyn-sy-n-bwysig/

© WJEC CBAC Ltd.2026.

  - gwerthfawrogi sut mae esblygiad lleoedd neu gyrchfannau yn cael ei sbarduno gan y rhyngweithio sydd rhwng ystod o ffactorau, gan gynnwys rhai amgylcheddol, economaidd, gweithredoedd a chredoau pobl
  - cynyddu eu hymwybyddiaeth o sut mae cynaliadwyedd ein byd yn y dyfodol a newid hinsawdd yn cael eu dylanwadu gan effaith gweithredoedd dynol
  - datblygu fel dinasyddion byd-eang hunanymwybodol, gwybodus a moesegol sy'n adfyfyrio'n feirniadol ar eu credoau, eu gwerthoedd a'u hagweddau eu hunain ac eraill.
- cefnogi egwyddorion cynnydd y Dyniaethau[2] drwy annog dysgwyr i:
  - ddangos mwy o annibyniaeth wrth ddod o hyd i wybodaeth addas
  - cynyddu ehangder a dyfnder eu gwybodaeth a chysyniadau sylfaenol ym maes teithio a thwristiaeth
  - archwilio'r byd o'u cwmpas i feithrin dealltwriaeth ohonyn nhw eu hunain yn y byd
  - dangos mwy o allu i ddylanwadu ar ddigwyddiadau drwy fod yn ddinasyddion gwybodus a chyfrifol
  - dangos gallu cynyddol i drosglwyddo sgiliau a gwybodaeth bresennol i gyd-destunau newydd, a chynyddol anghyfarwydd, drwy dasgau ymarferol.

## 1.3. Dysgu blaenorol a dilyniant

Er nad yw dysgu blaenorol yn un o'r gofynion penodol, lluniwyd y cymhwyster yn bennaf i ddysgwyr rhwng 14 ac 16 oed. Mae'n adeiladu felly ar y ddealltwriaeth gysyniadol a ddatblygwyd gan ddysgwyr drwy'r hyn a ddysgwyd ganddynt rhwng 3 ac 14 oed. Efallai y bydd dysgwyr wedi cwblhau Cymhwyster Sylfaen Cysylltiedig â Gwaith (WRFQ) yn y pwnc cyn dechrau'r cwrs hwn, a all gefnogi eu parodrwydd a'u dilyniant ymhellach.

Mae'r cymhwyster yn galluogi dysgwyr i ddatblygu sylfaen gref o wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth sy'n cefnogi dilyniant i astudio ôl-16 ac sy'n paratoi dysgwyr ar gyfer bywyd, dysgu a gwaith. Mae'r cymhwyster yn darparu sail addas ar gyfer dilyniant i astudiaeth bellach ar Lefelau 1 i 3, megis Twristiaeth ar Lefel 3, ac i brentisiaethau megis Ymgynghorydd Teithio, Rheolwr Digwyddiadau neu Farchnata. Yn ogystal, mae'r fanyleb hon yn cynnig cwrs astudio sy'n gydlynol, yn foddhaol ac yn werth chweil i'r dysgwyr hynny nad ydynt yn symud ymlaen i astudio ymhellach yn y pwnc hwn.

## 1.4. Oriau dysgu dan arweiniad (ODA) a Chyfanswm Amser Cymhwyso (CAC)

Lluniwyd TAAU Teithio a Thwristiaeth i'w chyflwyno dros gyfnod o 120 – 140 o oriau dysgu dan arweiniad (ODA). Cafodd y cymhwyster ei lunio'n bennaf fel rhaglen 2 flynedd i ddysgwyr ym mlynyddoedd 10 ac 11. Mae gan athrawon hyblygrwydd o ran sut maent yn strwythuro ac yn cyflwyno eu cyrsiau o fewn cyfanswm yr ODA ar gyfer y cymhwyster. Mae swm y cynnwys ym mhob uned a'r pwysoliad o fewn y cymhwyster yn rhoi syniad o'r ganran ddisgwyliedig o ODA y gallai fod ei hangen ar gyfer pob uned.

| | Pwysoliad | ODA |
|---|---|---|
| Uned 1 | 20% | 24 awr |
| Uned 2 | 20% | 24 awr |
| Uned 3 | 60% | 72 awr |
| Cyfansymiau | **100%** | **120 awr** |

[2] https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/y-dyniaethau/egwyddorion-cynnydd/

© WJEC CBAC Ltd.2026.

DRAFT

Y cyfanswm amser cymhwyso (CAC) yw cyfanswm yr amser, mewn oriau, y disgwylir i ddysgwr ei dreulio er mwyn ennill cymhwyster. Mae'n cynnwys yr ODA ac unrhyw amser ychwanegol i baratoi, astudio a chyflawni rhai gweithgareddau asesu ffurfiannol.

Cyfanswm amser cymhwyso'r cymhwyster hwn yw 140-160 awr. Mae hyn yn cynnwys:
- Rhwng 120 a 140 awr o ddysgu dan arweiniad a/neu asesiad dan oruchwyliaeth
- 20 awr o astudiaeth hunangyfeiriedig a all gynnwys aseiniadau a thasgau ychwanegol wedi'u gosod gan yr athro (gwaith cartref) a defnydd annibynnol o adnoddau dysgu ar-lein.

## 1.5. Y defnydd o iaith

Wrth i'n dealltwriaeth o amrywiaeth, tegwch a chynhwysiant ddatblygu, mae'n rhaid i'n hiaith ddatblygu hefyd. Drwy ddiweddaru terminoleg, rydym yn adlewyrchu hunaniaethau unigol yn well ac yn meithrin parch a chywirdeb. Bydd yr iaith a ddefnyddir mor benodol â phosibl. Mae'n hanfodol bod yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd a bod modd addasu gan fod iaith gynhwysol yn hybu urddas a thegwch. Gan gydnabod y bydd iaith yn parhau i ddatblygu, byddwn yn parhau i fod yn agored i ddiwygiadau pellach i sicrhau y cynrychiolir ac y cefnogir pob unigolyn yn gywir. Bydd CBAC yn rhoi gwybod i ganolfannau am unrhyw ddiwygiadau a bydd y fersiwn diweddaraf o'r fanyleb ar y wefan bob amser.

## 1.6. Cydraddoldeb a mynediad teg

Mae'r fanyleb hon wedi'i chynllunio i fod yn hygyrch i bob dysgwr, waeth beth fo'u rhywedd, ethnigrwydd, crefydd, diwylliant, neu unrhyw nodwedd warchodedig arall fel y'i diffinnir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae'r nodweddion gwarchodedig hyn yn cynnwys oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw, a chyfeiriadedd rhywiol. Mae egwyddorion cynllunio cynhwysol wedi'u cymhwyso drwy'r cymhwyster, gan gynnwys defnyddio fformatau asesu amrywiol, iaith glir a diduedd, ac enghreifftiau amrywiol sy'n adlewyrchu ehangder ac amrywiaeth y sector teithio a thwristiaeth. Mae pob ymdrech wedi'i wneud i osgoi, lle y bo'n bosibl, nodweddion a allai greu rhwystrau i fynediad neu gyflawniad na ellir eu cyfiawnhau.

Mae trefniadau mynediad ac addasiadau rhesymol ar gael i ddysgwyr cymwys er mwyn sicrhau y gallant gymryd rhan lawn mewn asesiadau a dangos eu gwybodaeth a'u sgiliau. Nid yw'r addasiadau hyn yn newid gofynion bwriadedig yr asesiad ond maent yn cefnogi mynediad teg. Mae canllawiau ar drefniadau mynediad ac addasiadau rhesymol i'w gweld yn nogfen y Cyd-gyngor Cymwysterau (CGC) *Trefniadau Mynediad, Addasiadau Rhesymol*: *Cymwysterau Cyffredinol a Galwedigaethol*, sydd ar gael yn www.jcq.org.uk.

Mae'r cymhwyster hwn yn cadw at yr egwyddorion a amlinellir yng nghanllawiau'r CGC. O ganlyniad i gynllunio cynhwysol a darpariaeth ar gyfer addasiadau rhesymol, prin iawn fydd nifer y dysgwyr a fydd yn dod ar draws rhwystr llwyr rhag unrhyw ran o'r broses asesu.

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd.2026.

# 2.Unedau

## 2.1 Fformat yr unedau

| | |
|---|---|
| ODA | Mae'n nodi'r nifer amcangyfrifedig o oriau y bydd dysgwr yn ei dreulio o dan oruchwyliaeth neu arweiniad uniongyrchol i gwblhau'r uned. Mae hyn yn cynnwys addysgu yn yr ystafell ddosbarth, gweithgareddau ymarferol, ac astudio dan oruchwyliaeth. |
| Cyfraniad at radd y cymhwyster | Mae'n nodi'r cyfraniad y mae'r uned hon yn ei wneud at radd ar gyfartaledd y cymhwyster. |
| Trosolwg o'r uned | Mae'n darparu crynodeb cryno o bwrpas, cwmpas a pherthnasedd yr uned. Mae'n amlinellu'r themâu, y sgiliau a'r meysydd gwybodaeth allweddol a gwmpesir, a sut mae'r uned yn cefnogi dilyniant yn y maes galwedigaethol. |
| Testunau | Mae'n rhestru'r testunau y bydd dysgwyr yn eu hastudio fel rhan o'r uned. |
| Crynodeb o'r asesu | Mae'n crynhoi'r dulliau asesu ar gyfer yr uned. |
| Yr adnoddau sydd eu hangen ar gyfer yr asesiad | Manylion y deunyddiau, yr offer a'r cyfleusterau sydd eu hangen i gynnal yr asesiad yn effeithiol. Mae hyn yn sicrhau cysondeb a thegwch wrth gyflwyno'r cymhwyster ar draws canolfannau. |
| Cysylltau ag unedau a chymwysterau eraill CBAC | Mae'n nodi cysylltiadau ag unedau neu gymwysterau eraill a gynigir gan CBAC, gan gynnwys llwybrau dilyniant a/neu gyfleoedd ar gyfer cyflwyno integredig. |
| Cynnwys | Mae'n amlinellu'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau y mae angen eu haddysgu i ddysgwyr i fodloni'r meini prawf asesu. |
| Cyfleoedd i integreiddio profiadau dysgu | Mae'n tynnu sylw at brofiadau dysgu a allai gael eu cynhyrchu trwy gyflwyno'r uned. Mae mwy o wybodaeth wedi'i chynnwys yn y Canllawiau Addysgu.<br>Ni fydd profiadau'n cael eu hasesu'n uniongyrchol. |

## 2.2 Sut i ddarllen yr ymhelaethiad

Mae'r ymhelaethiad a ddarperir yn y golofn ar y dde yn defnyddio'r pedwar bonyn i ddangos dyfnder disgwyliedig y dysgu.

Mae ‘Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o’ yn cael ei ddefnyddio pan fydd angen ymwybyddiaeth gyffredinol yn unig o'r cynnwys dan sylw ar ddysgwyr, heb ddealltwriaeth fanwl. Dylai athrawon gyfeirio at ddogfennau Canllawiau Addysgu am ganllawiau manylach ar ddyfnder a chwmpas.

‘Mae 'Dylai dysgwyr wybod' yn cael ei ddefnyddio pan mae gofyn i ddysgwyr ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth sylfaenol o'r cynnwys.

Mae ‘Dylai dysgwyr ddeall’ yn nodi y dylai dysgwyr ddangos mwy o ddyfnder o wybodaeth a dealltwriaeth, gan gynnwys y gallu i gymhwyso gwybodaeth i gyd-destunau cyfarwydd neu anghyfarwydd, neu ddadansoddi a gwerthuso gwybodaeth at bwrpas penodol.

Mae 'Dylai dysgwyr allu' yn cael ei ddefnyddio pan fydd disgwyl i ddysgwyr ddefnyddio eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth mewn sefyllfaoedd ymarferol neu gymhwyso sgiliau a thechnegau ymarferol.

© WJEC CBAC Ltd.2026.

## 2.3 Cynnwys

Darperir cynnwys ar gyfer pob testun, sy'n amlinellu'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau y mae angen eu haddysgu i ddysgwyr.

Rhaid cyflwyno'r holl gynnwys oni nodir fel arall:

- mae'r defnydd o'r ymadrodd 'gan gynnwys' yn golygu bod y cynnwys dan sylw yn orfodol ac y gallai gael ei asesu. Gall canolfannau ddewis ymgorffori cynnwys neu enghreifftiau ychwanegol y tu hwnt i'r rhai a restrir.

- Mae'r defnydd o'r geiriau 'er enghraifft', neu 'megis' yn golygu mai arweiniad yn unig yw'r cynnwys dan sylw, a gellid defnyddio enghreifftiau eraill.

DRAFFT

© WJEC CBAC Ltd.2026.

## Uned 1 Cyflwyniad i'r diwydiant teithio a thwristiaeth

| | |
|---|---|
| ODA | 24 |
| Cyfraniad at radd y cymhwyster | 20% |
| Trosolwg o'r uned | Mae'r sector twristiaeth yn llewyrchus ac wedi'i gysylltu'n fyd-eang Mae'n cwmpasu gwasanaethau teithio, llety, atyniadau a phrofiadau diwylliannol, gan chwarae rhan allweddol mewn twf economaidd a hyrwyddo dealltwriaeth rhwng gwahanol gymunedau a diwylliannau.<br><br>Mae'r uned hon yn cyflwyno dysgwyr i'r diwydiant teithio a thwristiaeth byd-eang gyda chanolbwynt ar ei gyfraniad at economi Cymru. Ei nod yw cyflwyno gwybodaeth am strwythurau, rolau a gyrfaoedd y sector ochr yn ochr ag ystyriaethau sefydliadol ac economaidd yng Nghymru. Mae'r uned yn darparu sylfaen wybodaeth hanfodol sy'n sail i'r cynnwys a'r gwaith ymarferol yn yr unedau sy'n weddill.<br><br>Mae'n cefnogi llwybrau i astudiaeth bellach, prentisiaethau a chyflogaeth drwy feithrin:<br>• Dealltwriaeth o sectorau'r diwydiant gan gynnwys y defnydd o dechnoleg ynddynt<br>• Gwybodaeth am rolau swyddi a llwybrau gyrfa ym maes teithio a thwristiaeth<br>• Dealltwriaeth o gyfraniad teithio a thwristiaeth at economi Cymru.<br><br>Bydd dysgwyr sy'n cwblhau'r uned hon wedi'u paratoi ar gyfer astudiaeth bellach neu rolau lefel mynediad mewn teithio a thwristiaeth, gyda sylfaen gref mewn gwybodaeth am y diwydiant. |
| Testunau | 1.1 Sectorau'r diwydiant teithio a thwristiaeth<br>1.2 Cyfleoedd cyflogaeth yn y diwydiant teithio a thwristiaeth<br>1.3 Economi ymwelwyr yng Nghymru |
| Crynodeb o'r asesu | Asesiad allanol (prawf sector): 1 awr<br>Wedi'i osod a'i farcio gan CBAC<br>Ar gael mewn dau fformat: ar bapur ac ar sgrin<br>20% o’r cymhwyster<br>50 marc |
| Yr adnoddau sydd eu hangen ar gyfer yr asesiad | Nid oes anghenion penodol ar gyfer yr asesiad<br>Dylai canolfannau sy'n cofrestru dysgwyr ar gyfer asesiad ar y sgrin gyfeirio at wefan CBAC am wybodaeth ar unrhyw ofynion system<br>https://www.cbac.co.uk/home/gweinyddu/e-asesu/ |
| Cysylltau ag unedau a chymwysterau eraill CBAC | Sgiliau Gwaith: Creadigrwydd Gyrfa<br>Sgiliau Gwaith: Archwilio Llwybrau Gyrfa<br>Sgiliau Gwaith: Swyddi ar gyfer y Dyfodol<br>Sgiliau Gwaith: Cynllunio Datblygiad Personol<br>Sgiliau Gwaith: Hawliau a Chyfrifoldebau yn y Gweithle<br>Sgiliau Gwaith: Datblygu Economaidd Cynaliadwy |

© WJEC CBAC Ltd.2026.

Sgiliau Gwaith: Gweithio yng Nghymru

Cynnwys

| 1.1 Sectorau'r diwydiant teithio a thwristiaeth | |
|---|---|
| Yn y testun hwn, bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau yn y meysydd canlynol:<br>1.1.1 Sectorau'r diwydiant teithio a thwristiaeth<br>1.1.2 Swyddogaethau sectorau yn y diwydiant teithio a thwristiaeth<br>1.1.3 Defnydd o dechnoleg yn y diwydiant teithio a thwristiaeth | |
| Adran | Ymhelaethiad |
| 1.1.1<br>Sectorau'r diwydiant teithio a thwristiaeth | Dylai dysgwyr wybod sectorau'r diwydiant teithio a thwristiaeth gan gynnwys:<br><br>Cludiant<br>• awyr<br>• rheilffyrdd<br>• ffyrdd<br>• môr<br><br>Llety<br>• â gwasanaeth<br>• heb wasanaeth<br><br>Atyniadau<br>• naturiol<br>• adeiledig<br><br>Trefnwyr Teithiau<br>• darparwyr gwyliau pecyn<br>• cwmnïau teithio arbenigol<br><br>Asiantaethau teithio<br>• y stryd fawr<br>• ar-lein<br><br>Digwyddiadau<br>• diwylliannol<br>• adloniant<br>• mentrau cymdeithasol<br>• chwaraeon<br><br>Gwasanaethau ategol<br>• llogi car<br>• cyfnewid arian cyfred<br>• yswiriant. |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd.2026.

| | |
|---|---|
| 1.1.2<br>Swyddogaethau sectorau yn y diwydiant teithio a thwristiaeth | Dylai dysgwyr wybod pwrpas a rolau sectorau yn y diwydiant teithio a thwristiaeth gan gynnwys:<br>• cludiant – symud twristiaid o un cyrchfan i'r llall<br>• llety – darparu lle i dwristiaid aros yn ystod eu hymweliad<br>• atyniadau – darparu gweithgareddau i dwristiaid sy'n denu twristiaid i gyrchfan<br>• trefnwyr teithiau – trefnu gwyliau pecyn neu dripiau grŵp i dwristiaid<br>• asiantaethau teithio – helpu cwsmeriaid i archebu gwyliau, teithio a llety<br>• digwyddiadau –cynnal sioeau, cyngherddau, gwyliau, neu chwaraeon sy'n denu twristiaid<br>• gwasanaethau ategol – darparu gwasanaethau ychwanegol megis yswiriant, llogi ceir neu arian cyfred i ategu profiad twristiaid. |
| 1.1.3<br>Defnydd o dechnoleg yn y diwydiant teithio a thwristiaeth | Dylai dysgwyr ddeall y defnydd o dechnoleg yn y diwydiant teithio a thwristiaeth, gan gynnwys:<br>• technoleg llety<br>• technoleg meysydd awyr<br>• cyfathrebu digidol gan gynnwys y cyfryngau cymdeithasol<br>• apiau symudol<br>• bwciadau ar-lein<br>• teithiau rhithiol o brofiadau. |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd.2026.

<table>
<tr><th colspan="2">1.2 Cyfleoedd cyflogaeth yn y diwydiant teithio a thwristiaeth</th></tr>
<tr><td colspan="2">Yn y testun hwn, bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau yn y meysydd canlynol:<br>1.2.1 Rolau swydd yn y diwydiant teithio a thwristiaeth<br>1.2.2 Ymddygiad a sgiliau craidd yn y gweithle<br>1.2.3 Llwybrau gyrfa yn y diwydiant teithio a thwristiaeth</td></tr>
<tr><td>Adran</td><td>Ymhelaethiad</td></tr>
<tr><td>1.2.1<br>Rolau swyddi yn y diwydiant teithio a thwristiaeth</td><td>Dylai dysgwyr wybod am rolau swyddi o fewn sectorau'r diwydiant teithio a thwristiaeth gan gynnwys:<br>• Cludiant (awyr, rheilffyrdd, ffyrdd, môr)<br>  • criw caban<br>  • gyrrwr bysiau moethus<br>  • staff fferi<br>  • swyddog tocynnau trên.<br>• Llety (â gwasanaeth, heb wasanaeth)<br>  • derbynnydd gwesty<br>  • person cadw tŷ/glanhäwr<br>  • diogelwch.<br>• Atyniadau<br>  • staff profiadau gydag anifeiliaid<br>  • staff arlwyo<br>  • cynorthwyydd oriel/amgueddfa<br>  • gweithredydd reidiau<br>  • gweithiwr siop<br>  • staff swyddfa docynnau<br>  • tywyswyr.<br>• Trefnwyr Teithiau<br>  • staff cofrestru teithwyr maes awyr<br>  • cynorthwyydd cymorth bwcio<br>  • staff gwibdeithiau<br>  • cynrychiolydd gwyliau.<br>• Asiantaethau Teithio<br>  • cymorth gweinyddol<br>  • cynghorydd gwasanaeth i gwsmeriaid<br>  • staff cymorth gwerthiannau<br>  • ymgynghorydd teithio.<br>• Dylai dysgwyr ddeall mathau o gyflogaeth yn y diwydiant teithio a thwristiaeth gan gynnwys:<br>  • llawn amser<br>  • rhan amser<br>  • tymhorol<br>  • gwirfoddol.</td></tr>
<tr><td>1.2.2<br>Ymddygiadau a sgiliau craidd yn y gweithle</td><td>Dylai dysgwyr ddeall sut mae'r ymddygiadau a sgiliau craidd yn cyfrannu at lwyddiant yn y diwydiant teithio a thwristiaeth gan gynnwys:<br>• sgiliau cyfathrebu<br>• sgiliau gwasanaeth i gwsmeriaid<br>• hyblygrwydd<br>• cyflwyniad personol<br>• brwdfrydedd<br>• ymddygiad cadarnhaol yn y gweithle</td></tr>
</table>

© WJEC CBAC Ltd.2026.

| | |
|---|---|
| | • gwaith tîm<br>• rheoli amser. |
| 1.2.3<br>Llwybrau gyrfa yn y diwydiant teithio a thwristiaeth | Dylai dysgwyr ddeall bod gwahanol gyfleoedd ar gael i symud ymlaen yn y diwydiant teithio a thwristiaeth:<br><br>Llwybrau i mewn i'r diwydiant gan gynnwys:<br>• prentisiaethau<br>• gwaith tymhorol<br>• cyrsiau teithio a thwristiaeth<br>• gwirfoddoli/profiad gwaith.<br><br>Dilyniant gyrfa, gan gynnwys:<br>• goruchwyliwr atyniadau<br>• swyddog cadwraeth<br>• rheolwr cyrchfannau<br>• cydlynydd digwyddiadau<br>• cynorthwyydd gwasanaeth gwesteion<br>• rheolwr gwesty / rheolwr atyniad i ymwelwyr<br>• rheolwr yn ystod hediad<br>• tywysydd arweiniol teithiau<br>• ceidwad parc.<br>• uwch griw caban<br>• swyddog datblygu twristiaeth. |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd.2026.

## 1.3 Economi Ymwelwyr yng Nghymru

Yn y testun hwn, bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau yn y meysydd canlynol:

1.3.1 Sefydliadau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol yn gweithio gyda'i gilydd
1.3.2 Gwasanaethau a chyfleusterau sy'n cefnogi teithio a thwristiaeth
1.3.3 Defnyddio data i ddeall gwerth twristiaeth i economi Cymru

| Adran | Ymhelaethiad |
| --- | --- |
| 1.3.1<br>Sefydliadau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol yn gweithio gyda'i gilydd | Dylai dysgwyr ddeall bod gwahanol fathau o sefydliadau yn y diwydiant teithio a thwristiaeth a pham efallai y byddent yn gweithio gyda'i gilydd, gan gynnwys:<br>• Cyhoeddus - yn cael eu rhedeg gan y llywodraeth, er enghraifft: Croeso Cymru, cynghorau lleol ac Amgueddfa Cymru<br>• Preifat - busnes er elw, er enghraifft: cwmnïau hedfan, asiantaethau teithio, atyniadau i ymwelwyr, darparwyr llety (megis gwestai, canolfan wyliau Bluestone)<br>• Gwirfoddol - grwpiau nid-er-elw, er enghraifft: Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, CADW<br><br>Gweithio gyda'i gilydd er mwyn:<br>• gwella profiad ymwelwyr<br>• hyrwyddo cyrchfannau<br>• hyrwyddo cynaliadwyedd<br>• cynnal digwyddiadau. |
| 1.3.2<br>Gwasanaethau a chyfleusterau sy'n cefnogi teithio a thwristiaeth | Dylai dysgwyr ddeall y gwasanaethau a'r cyfleusterau sydd eu hangen ar dwristiaid cyn ac yn ystod ymweliadau gan gynnwys:<br>• hygyrchedd, er enghraifft: rampiau, lifftiau, toiledau hygyrch, mannau tawel, seddi â blaenoriaeth, cymorth gweledol a chlywedol, arwyddion a gwybodaeth braille.<br>• cyfleusterau, er enghraifft: mannau newid babanod, toiledau, cymorth cyntaf, siopau anrhegion.<br>• gwasanaethau gwybodaeth, er enghraifft: mapiau, teithiau tywys, desgiau cymorth, gwybodaeth am ddigwyddiad neu gyrchfan, gwasanaethau gwybodaeth Cymraeg/dwyieithog<br>• cludiant, er enghraifft: bwcio cludiant, cynllunio teithiau gan ddefnyddio mapiau neu wefannau, cyfleusterau meysydd awyr a gorsafoedd, trafnidiaeth gyhoeddus megis Trafnidiaeth Cymru. |
| 1.3.3<br>Defnyddio data i ddeall gwerth twristiaeth i economi Cymru | Dylai dysgwyr ddeall bod gan Gymru ddiwydiant teithio a thwristiaeth helaeth sy'n effeithio ar yr economi mewn ffyrdd amrywiol ac sy'n aml yn gysylltiedig â'i gilydd, gan gynnwys:<br>• creu swyddi<br>• niferoedd ymwelwyr<br>• gwariant ymwelwyr<br><br>Dylai dysgwyr ddeall sut i wneud y canlynol:<br>• nodi patrymau a thueddiadau mewn data sy'n ymwneud â diwydiant teithio a thwristiaeth Cymru<br>• casglu gwybodaeth ar ystod o ddata sy'n ymwneud â diwydiant teithio a thwristiaeth Cymru<br>• gwneud cyfrifiadau gan ddefnyddio ystod o ddata sy'n ymwneud â diwydiant teithio a thwristiaeth Cymru<br>• defnyddio data i wneud cysylltiadau ag effeithiau eraill ar yr economi. |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd.2026.

## Cyfleoedd ar gyfer integreiddio profiadau dysgu sy'n ymwneud â'r byd gwaith

Mae'r uned hon yn creu cyfleoedd i ddatblygu'r profiadau dysgu canlynol (ni fydd y profiadau yn cael eu hasesu'n uniongyrchol):

- Archwilio'r cyfleoedd gyrfa amrywiol o fewn y diwydiant teithio a thwristiaeth drwy siarad â phobl yn y diwydiant
- Archwilio'r cyfleoedd gyrfa amrywiol o fewn y diwydiant teithio a thwristiaeth trwy ddefnyddio adnoddau a gynhyrchir gan y diwydiant megis Gwaith mewn lletygarwch a thwristiaeth | Cymru'n Gweithio, Swyddi mewn Twristiaeth, Lletygarwch, Chwaraeon a Hamdden | Swyddi Dyfodol Cymru a Gyrfaoedd yn 360 - Cymru
- Dysgu am wahanol lwybrau gyrfa, llwybrau hyfforddiant a chymwysterau yn uniongyrchol gan gyflogwyr a darparwyr hyfforddiant teithio a thwristiaeth drwy wahodd siaradwyr gwadd neu gynnal ymweliadau
- Meithrin ysbrydoliaeth a chymhelliad drwy glywed am deithiau gyrfa a straeon llwyddiant personol
- Rhyngweithio â siaradwyr gwadd o'r diwydiant teithio a thwristiaeth i gael mewnwelediad uniongyrchol i arferion a disgwyliadau'r byd go iawn
- Cael mewnwelediad i sut mae'r sectorau a gwahanol sefydliadau'n gweithio gyda'i gilydd drwy wahodd siaradwyr gwadd o'r diwydiant.

Bydd gwybodaeth bellach i'w chael yn y Canllawiau Addysgu o ran y cyfleoedd y mae'r cymhwyster yn eu cynnig i athrawon/canolfannau i integreiddio'r profiadau a'r sgiliau dysgu hyn wrth ei gyflwyno.

Gweler Atodiad A am gyfleoedd i ddatblygu themâu trawsbynciol, sgiliau trawsgwricwlaidd a sgiliau cyfannol.

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd.2026.

## Uned 2 Cyrchfannau i Dwristiaid

| | |
|---|---|
| ODA | 24 |
| Cyfraniad at radd y cymhwyster | 20% |
| Trosolwg o'r uned | Mae'r uned hon yn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth dysgwyr o gyrchfannau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol i dwristiaid, eu nodweddion daearyddol, a'u priodoleddau, eu dewisiadau teithio, yn ogystal â chymhellion twristiaid ac effaith teithio a thwristiaeth ar gyrchfannau a'u dyfodol. Mae'n datblygu sgiliau ymarferol a throsglwyddadwy megis sgiliau ymchwilio, dylunio a meddwl yn feirniadol. Mae'r uned yn darparu sylfaen gref ar gyfer deall cymhlethdodau twristiaeth a'i rôl mewn economïau a chymunedau byd-eang.<br><br>Mae'r uned hon yn cefnogi dilyniant mewn gyrfaoedd neu astudiaethau teithio a thwristiaeth gan ei bod yn rhoi'r wybodaeth a'r sgiliau i ddysgwyr ddadansoddi cyrchfannau, deall cymhellion ymwelwyr, gwerthuso effeithiau twristiaeth ac archwilio strategaethau rheoli twristiaeth ar gyfer y dyfodol.<br><br>Drwy gwblhau'r uned hon, bydd gan ddysgwyr wybodaeth hanfodol a sgiliau ymarferol i gefnogi dilyniant i unedau pellach, astudiaethau neu yrfaoedd yn y diwydiant teithio a thwristiaeth. |
| Testunau | 2.1 Nodweddion daearyddol a phriodoleddau cyrchfannau i dwristiaid<br>2.2 Cymhellion dros deithio<br>2.3 Effaith twristiaeth ar gyrchfannau a'u dyfodol<br>2.4 Defnyddio sgiliau creadigol i ddarparu gwybodaeth am gyrchfan |
| Crynodeb o'r asesu | Asesiad di-arholiad: 6 awr<br>Wedi'i farcio gan CBAC<br>20% o'r cymhwyster<br>50 marc |
| Yr adnoddau sydd eu hangen ar gyfer yr asesiad | Rhaid i ddysgwyr gael mynediad at:<br>TG, meddalwedd briodol a'r rhyngrwyd er mwyn cynnal gwaith ymchwil<br><br>**Ni** chaniateir defnyddio deallusrwydd artiffisial (AI) |
| Cysylltau ag unedau a chymwysterau eraill CBAC | Sgiliau Bywyd: Cyfranogiad Cymunedol<br>Sgiliau Bywyd: Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant<br>Sgiliau Bywyd: Dewisiadau Moesegol<br>Sgiliau Bywyd: Ffydd a Chredo yn y Gymuned<br>Sgiliau Bywyd: Sgiliau yn yr Amgylchedd Naturiol<br>Sgiliau Bywyd: Cynaliadwyedd ar Waith<br>Sgiliau Bywyd: Deall yr Hunan ac Eraill<br>Sgiliau Bywyd: Gwerthoedd Bywyd<br>Sgiliau Gwaith: Datblygu Economaidd Cynaliadwy |

Cliciwch yma i fewnbynnu teitl.

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd.2026.

Cynnwys

## 2.1 Nodweddion daearyddol a phriodoleddau cyrchfannau i dwristiaid

Yn y testun hwn, bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau yn y meysydd canlynol:

2.1.1 Nodweddion daearyddol
2.1.2 Priodoleddau cyrchfannau i dwristiaid
2.1.3 Dewisiadau teithio

| Adran | Ymhelaethiad |
|---|---|
| 2.1.1<br>Nodweddion daearyddol | Dylai dysgwyr allu nodi nodweddion daearyddol ffisegol enghreifftiau o gyrchfannau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol i dwristiaid:<br>• yr amgylchedd naturiol – er enghraifft: traethau (megis penrhyn Llŷn, traeth Bournemouth, traeth Bondi), mynyddoedd (megis Bannau Brycheiniog, y Penwynion, yr Alpau), afonydd (megis Afon Gwy, Afon Tafwys, Afon Nîl), coedwigoedd (megis Coedwig Hafren, Fforest y Ddena, coedwig law'r Amazon), arfordiroedd (megis penrhyn Gŵyr, Cernyw, arfordir Amalfi), llynnoedd a pharciau cenedlaethol (megis Eryri, Ardal y Llynnoedd, Kruger (De Affrica)), gwarchodfeydd natur ac ardaloedd cadwraeth (megis Ynys Sgomer, Clogwyni Bempton), tirweddau cenedlaethol (megis penrhyn Gŵyr, y Cotswolds/Clogwyni Gwynion Dover, y Grand Canyon)<br>• yr amgylchedd adeiledig – er enghraifft: parciau thema (megis Heatherton World of Activities, Legoland, DisneyWorld), adeiladau hanesyddol (megis cestyll yng Nghymru, y DU a'r Almaen), amgueddfeydd (Amgueddfa Cymru, Amgueddfa Astudiaethau Natur, Louvre (Ffrainc)), tirnodau (megis Traphont Ddŵr Pontcysyllte, Pont Gweryd, Taj Mahal), lleoliadau siopa, lleoliadau chwaraeon, orielau celf, theatrau, lleoliadau cyngherddau ac adloniant (enghreifftiau o leoliadau megis Canolfan Mileniwm Cymru, Stadiwm Wembley, theatrau'r West End, Tŷ Opera Sydney). |
| 2.1.2<br>Priodoleddau cyrchfannau i dwristiaid | Dylai dysgwyr ddeall priodoleddau cyrchfannau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol i dwristiaid gan gynnwys:<br>• atyniadau<br>• gwybodaeth hinsawdd, gan gynnwys graffiau hinsawdd a phatrymau tywydd<br>• diwylliannol, er enghraifft: iaith (megis y Gymraeg, Cernyweg, Catalaneg), traddodiadau (megis Dydd Gŵyl Dewi, Noson Tân Gwyllt, OktoberFest), gwyliau (megis yr Eisteddfod, Gŵyl Caeredin, Mardi Gras, Carnifal), a bwyd (megis cacenni cri, pysgod a sglodion, pitsa a baguettes). |
| 2.1.3<br>Dewisiadau teithio | Dylai dysgwyr allu lleoli a deall dewisiadau teithio ar gyfer enghreifftiau o gyrchfannau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol i dwristiaid gan gynnwys:<br>• awyr – meysydd awyr, codau meysydd awyr<br>• canolfannau rheilffyrdd – gorsafoedd, trenau tanddaearol, tramiau<br>• ffyrdd – trafnidiaeth leol, tacsis, bysiau, llogi ceir, trafnidiaeth gynaliadwy (er enghraifft llogi beiciau)<br>• môr – porthladdoedd. |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd.2026.

## 2.2 Cymhellion dros deithio

Yn y testun hwn, bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau yn y meysydd canlynol:

2.2.1 Ffactorau cymell dros deithio
2.2.2 Ffactorau sy'n dylanwadu ar dwristiaid
2.2.3 Proffiliau twristiaid

| Adran | Ymhelaethiad |
|---|---|
| 2.2.1<br>Ffactorau cymell dros deithio | Dylai dysgwyr ddeall y gwahanol gymhellion dros deithio lleol, cenedlaethol a rhyngwladol:<br>• busnes – er enghraifft: cyfarfodydd, cymhellion, cynadleddau a digwyddiadau<br>• addysgiadol – er enghraifft: ymweliadau astudiaethau maes, cyfnewidiadau astudio, dysgu hobïau newydd ac ymweliadau hyfforddiant<br>• hamdden – er enghraifft: natur, diwylliant, treftadaeth, antur, llesiant<br>• crefyddol ac ysbrydol – er enghraifft: pererindod, enciliadau myfyrdod<br>• ymweld â ffrindiau a pherthnasau. |
| 2.2.2<br>Ffactorau sy'n dylanwadu ar dwristiaid | Dylai dysgwyr ddeall ffactorau sy'n dylanwadu ar dwristiaid i ymweld â chyrchfannau ar raddfa leol, genedlaethol a rhyngwladol gan gynnwys:<br>• hygyrchedd<br>• enw da cyrchfan<br>• ystyriaethau cydraddoldeb ac amrywiaeth<br>• adnoddau ariannol<br>• pryderon iechyd – er enghraifft: alldoriad clefyd<br>• ystyriaethau hawliau dynol<br>• diogelwch a risg<br>• cynaliadwyedd<br>• trefniadau teithio<br>• profiad ymwelwyr – er enghraifft: adolygiadau ymwelwyr, cyfryngau cymdeithasol<br>• tywydd a digwyddiadau byd-eang. |
| 2.2.3<br>Proffiliau twristiaid | Dylai dysgwyr ddeall enghreifftiau o broffiliau twristiaid ar gyfer cyrchfannau twristiaid lleol, cenedlaethol a rhyngwladol a gallu creu proffil twrist gan gynnwys:<br>• gwybodaeth ddemograffig<br>    • oed<br>    • rhywedd<br>    • incwm a galwedigaeth<br>    • cenedligrwydd/diwylliant<br>    • grŵp teithio<br>• diddordeb y teithiwr – megis hanes, diwylliant, bwyd a diod lleol, celf<br>• ffactorau sy'n eu cymell i deithio gan ddefnyddio cynnwys o 2.2.1<br>• ffactorau sy'n dylanwadu ar dwristiaid gan ddefnyddio cynnwys o 2.2.2 |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd.2026.

**2.3 Effaith twristiaeth ar gyrchfannau a'u dyfodol**

Yn y testun hwn, bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau yn y meysydd canlynol:

2.3.1 Effeithiau cadarnhaol
2.3.2 Effeithiau negyddol
2.3.3 Rheoli cyrchfannau i dwristiaid ar gyfer y dyfodol

| Adran | Ymhelaethiad |
|---|---|
| 2.3.1<br>Effeithiau cadarnhaol | Dylai dysgwyr ddeall ar raddfa leol, genedlaethol a rhyngwladol sut y gall twristiaeth gael effeithiau cadarnhaol ar gyrchfannau gan gynnwys:<br>• Dod â chymunedau ynghyd, gan gefnogi datblygu perthnasoedd cadarnhaol<br>• cyfnewid ac ymwybyddiaeth ddiwylliannol, gan ddathlu amrywiaeth a dealltwriaeth o bobl eraill a'u credoau (megis cadwraeth ieithoedd a thraddodiadau lleol)<br>• manteision economaidd (er enghraifft: swyddi (megis nifer y swyddi sy'n gysylltiedig â thwristiaeth yn yr ardal leol neu'r wlad), incwm, busnesau lleol)<br>• annog cadwraeth ac ardaloedd gwarchodedig (er enghraifft taliadau mynediad yn helpu i ariannu cadwraeth amgylcheddol)<br>• datblygu isadeiledd (er enghraifft datblygu cysylltiadau trafnidiaeth)<br>• hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r amgylchedd naturiol. |
| 2.3.2<br>Effeithiau negyddol | Dylai dysgwyr ddeall ar raddfa leol, genedlaethol a rhyngwladol sut y gall twristiaeth gael effeithiau negyddol ar gyrchfannau gan gynnwys:<br>• erydiad diwylliannol – er enghraifft: colli traddodiadau lleol a dilysrwydd diwylliannol<br>• dibyniaeth economaidd – er enghraifft: diffyg entrepreneuriaeth ac arloesi<br>• difrod amgylcheddol – er enghraifft: llygredd, colli bioamrywiaeth<br>• gor-dwristiaeth – er enghraifft: pwysau ar wasanaethau a'r amgylchedd, tagfeydd, ail gartrefi<br>• materion tymhorol – er enghraifft: prinder gweithwyr, swyddi/incwm/safon byw (megis cymunedau gwledig ac arfordirol lle mae swyddi yn agored i amrywiadau yn nifer yr ymwelwyr) |
| 2.3.3<br>Rheoli cyrchfannau i dwristiaid ar gyfer y dyfodol | Dylai dysgwyr ddeall dulliau o reoli cyrchfannau ar gyfer y dyfodol ar raddfa leol, genedlaethol a rhyngwladol, gan gynnwys:<br>• Mentrau ac offer y Llywodraeth ac yn lleol i reoli llifoedd ymwelwyr gan gynnwys:<br>  • codau ymarfer<br>  • Blaenoriaethau Croeso i Gymru Llywodraeth Cymru ar gyfer yr economi ymwelwyr<br>  • blaenoriaethau a chamau gweithredu allweddol Croeso Cymru<br>• ymddygiad twristiaid cyfrifol ac arferion teithio a thwristiaeth cynaliadwy gan gynnwys Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig. |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd.2026.

| **2.4 Defnyddio sgiliau creadigol i ddarparu gwybodaeth am gyrchfan** | |
|---|---|
| Yn y testun hwn bydd dysgwyr yn datblygu ac yn cymhwyso'r sgiliau canlynol<br>2.4.1 Sgiliau ymchwilio<br>2.4.2 Sgiliau digidol<br>2.4.3 Sgiliau cyflwyno creadigol | |
| Adran | Ymhelaethiad |
| 2.4.1<br>Sgiliau ymchwilio | Dylai dysgwyr allu defnyddio sgiliau ymchwilio i gyflwyno ffynonellau gwybodaeth cywir a dibynadwy, gan gynnwys:<br>• dewis ffynonellau gwybodaeth priodol<br>• cyflwyno gwybodaeth gywir yn seiliedig ar ymchwil gan gynnwys:<br>  ◦ mapiau<br>  ◦ data hinsawdd<br>  ◦ cyfathrebu ysgrifenedig<br>• dadansoddi a dehongli gwybodaeth. |
| 2.4.2<br>Sgiliau digidol | Dylai dysgwyr allu defnyddio amrywiaeth o offer digidol (megis meddalwedd cyflwyno, cyhoeddi bwrdd gwaith, prosesu gwaith neu feddalwedd a llwyfannau perthnasol eraill) i gyflwyno gwybodaeth am gyrchfan. |
| 2.4.3<br>Sgiliau cyflwyno creadigol | Dylai dysgwyr allu dangos a chymhwyso sgiliau creadigol i gyflwyno gwybodaeth gan ystyried y ffactorau canlynol:<br>• dylunio<br>• iaith berswadiol<br>• teilwra cynnwys ar gyfer y gynulleidfa. |

## Cyfleoedd ar gyfer integreiddio profiadau dysgu sy'n ymwneud â'r byd gwaith

Mae'r uned hon yn creu cyfleoedd i ddatblygu'r profiadau dysgu canlynol (ni fydd y profiadau yn cael eu hasesu'n uniongyrchol):

- rhyngweithio â siaradwyr gwadd o'r diwydiant teithio a thwristiaeth i gael mewnwelediad uniongyrchol i arferion a disgwyliadau'r byd go iawn
- gofyn cwestiynau a thrafod tueddiadau, heriau ac arloesiadau cyfredol yn y sector gyda gweithwyr proffesiynol o'r diwydiant
- datblygu sgiliau rhwydweithio drwy ymgysylltu â staff teithio a thwristiaeth
- ymweld â chyrchfannau i dwristiaid er mwyn deall y profiad teithio a thwristiaeth yn uniongyrchol

Bydd gwybodaeth bellach i'w chael yn y Canllawiau Addysgu o ran y cyfleoedd y mae'r cymhwyster yn eu cynnig i athrawon/canolfannau i integreiddio'r profiadau a'r sgiliau dysgu hyn wrth ei gyflwyno.

Gweler Atodiad A am gyfleoedd i ddatblygu themâu trawsbynciol, sgiliau trawsgwricwlaidd a sgiliau cyfannol.

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd.2026.

## Uned 3 Teithio a Thwristiaeth ar Waith

| | |
|---|---|
| ODA | 72 |
| Cyfraniad at radd y cymhwyster | 60% |
| Trosolwg o'r uned | Mae'r uned hon yn datblygu sgiliau a gwybodaeth ymarferol ar gyfer ymchwilio, cynnig a chynllunio, cyfathrebu ac adolygu taith deithio a thwristiaeth, gan ganolbwyntio ar Gymru. Bydd dysgwyr yn archwilio ymwelwyr â Chymru a'u hanghenion ac yn defnyddio'r wybodaeth hon a'r sgiliau ymchwil i greu syniadau ar gyfer taith. Bydd dysgwyr yn cael profiad ymarferol o gynllunio (gan gynnwys edrych ar gostau), marchnata, cyfathrebu ac adolygu syniadau ar gyfer teithiau.<br><br>Mae'r uned hon yn cefnogi dilyniant i astudiaeth bellach neu yrfaoedd mewn teithio a thwristiaeth trwy feithrin sgiliau ymarferol a throsglwyddadwy megis deall a bodloni anghenion ymwelwyr, cynllunio a threfnu, marchnata, cyfathrebu a gwerthuso.<br><br>Drwy gwblhau'r uned hon, bydd dysgwyr wedi caffael gwybodaeth a sgiliau ymarferol, gan gynnwys sgiliau meddal sy'n hanfodol i yrfaoedd yn y diwydiant teithio a thwristiaeth. |
| Testunau | 3.1 Ymchwilio i daith addas ar gyfer ymwelwyr â Chymru<br>3.2 Cynllunio a datblygu taith<br>3.3 Marchnata a chyfathrebu taith<br>3.4 Adolygu cynllunio a chyfathrebu taith |
| Crynodeb o'r asesu | Asesiad di-arholiad: 15 awr<br>Wedi'i farcio gan CBAC<br>60% o'r cymhwyster<br>90 marc |
| Yr adnoddau sydd eu hangen ar gyfer yr asesiad | Rhaid i ddysgwyr gael mynediad at:<br>TG, meddalwedd briodol a'r rhyngrwyd er mwyn cynnal gwaith ymchwil<br><br>**Ni** chaniateir defnyddio deallusrwydd artiffisial (AI) |
| Cysylltau ag unedau a chymwysterau eraill CBAC | Sgiliau Bywyd: Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant<br>Sgiliau Bywyd: Llythrennedd Ariannol<br>Sgiliau Bywyd: Cynaliadwyedd ar Waith<br>Sgiliau Bywyd: Deall yr Hunan ac Eraill<br>Sgiliau Gwaith: Cyllid Busnes<br>Sgiliau Gwaith: Gwasanaeth i Gwsmeriaid<br>Project Personol |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd.2026.

Cynnwys

| 3.1 Ymchwilio i daith briodol i ymwelwyr â Chymru | |
|---|---|
| Yn y testun hwn, bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau yn y meysydd canlynol:<br>3.1.1 Deall anghenion ymwelwyr â Chymru<br>3.1.2 Sgiliau ymchwilio<br>3.1.3 Ymchwilio i atyniadau i dwristiaid yng Nghymru<br>3.1.4 Ymchwilio i gyfleusterau sy'n cefnogi cyrchfannau i dwristiaid | |
| **Adran** | **Ymhelaethiad** |
| 3.1.1<br>Deall anghenion ymwelwyr â Chymru | Dylai dysgwyr ddeall y canlynol:<br>• Categorïau twristiaid sy'n cael eu denu i Gymru gan gynnwys:<br>  • pobl sydd heb nythu eto (16-34 oed heb blant yn y cartref)<br>  • Teuluoedd (16-64 oed â phlant yn y cartref)<br>  • pobl hŷn annibynnol (35-64 oed heb blant yn y cartref)<br>  • oedran ymddeol (65+ oed)<br>• anghenion ymwelwyr â Chymru:<br>  • addysgiadol – megis lleoliadau gweithgareddau, cysylltiadau trafnidiaeth, llety fforddiadwy<br>  • hamdden – er enghraifft antur (gweithgareddau awyr agored, llogi offer, gwybodaeth ddiogelwch), diwylliant (safleoedd treftadaeth, amgueddfeydd, gwyliau, arwyddion dwyieithog), teuluoedd (atyniadau diogel, cyfleusterau cyfeillgar i blant, llety fforddiadwy)<br>• sut i fodloni anghenion ymwelwyr:<br>  • sut y gall cyrchfannau addasu gwasanaethau - megis pecynnau i deuluoedd, llwybrau hygyrch<br>  • hygyrchedd a chydraddoldeb – megis cyfleusterau sy'n darparu ar gyfer amrywiaeth o anghenion a dewisiadau<br>  • pwysigrwydd gwasanaeth i gwsmeriaid a gwybodaeth glir<br>  • defnyddio strategaethau marchnata ar gyfer gwahanol fathau o ymwelwyr. |
| 3.1.2<br>Sgiliau Ymchwilio | Dylai dysgwyr allu cymhwyso technegau ymchwil i ddod o hyd i wybodaeth gan gynnwys:<br>• mathau o ffynonellau gwybodaeth megis:<br>  • y cyfryngau: rhaglenni dogfen, fideos hyrwyddo<br>  • adnoddau ar-lein: gwefan Croeso Cymru, byrddau twristiaeth, blogiau teithio<br>  • ffynonellau cynradd: adolygiadau ymwelwyr, cyfweliadau, postiadau cyfryngau cymdeithasol<br>  • deunyddiau print: taflenni gwybodaeth, arweinlyfrau, mapiau<br>• Sgiliau ar gyfer nodi a defnyddio gwybodaeth megis:<br>  • categoreiddio gwybodaeth yn ôl cyrchfannau, cyfleusterau ac ymwelwyr<br>  • cymharu ffynonellau er cywirdeb a pherthnasedd<br>  • dethol nodweddion allweddol (lleoliad, gweithgareddau, cyfleusterau) |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd.2026.

| | |
|---|---|
| 3.1.3<br>Ymchwilio i gyrchfannau i dwristiaid yng Nghymru | Dylai dysgwyr allu ymchwilio i gyrchfannau i dwristiaid yng Nghymru gan gynnwys:<br>• atyniadau naturiol, megis:<br>  • cadwynau o fynyddoedd: megis Eryri, Mynyddoedd Cambria<br>  • morlinau a thraethau: er enghraifft Arfordir Penfro, Penrhyn Gŵyr<br>  • afonydd a llynnoedd: er enghraifft Afon Gwy, Llyn Tegid<br>  • parciau cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE): er enghraifft Bannau Brycheiniog, Eryri<br>• atyniadau adeiledig, megis:<br>  • dinasoedd a threfi mawr: er enghraifft Caerdydd, Abertawe, Bangor<br>  • safleoedd diwylliannol a hanesyddol: er enghraifft Amgueddfa Werin Cymru Sain Ffagan, Castell Caernarfon, Portmeirion<br>  • gweithgareddau antur ac awyr agored: er enghraifft Zip World, BikePark Wales. |
| 3.1.4<br>Ymchwilio i gyfleusterau sy'n cefnogi cyrchfannau i dwristiaid | Dylai dysgwyr allu ymchwilio i gyfleusterau sy'n cefnogi cyrchfannau i dwristiaid yng Nghymru gan gynnwys:<br>• llety – megis gwestai, cyrchfannau gwyliau, llety hunanarlwyo, meysydd gwersylla a glampio, canolfannau preswyl (Llangrannog, Glan-llyn, Addysg Awyr Agored Plas Gwynant)<br>• cludiant – megis rheilffyrdd, rhwydweithiau ffyrdd, porthladdoedd, awyr, dewisiadau cludiant cynaliadwy<br>• cyfleusterau i ymwelwyr – megis gwybodaeth i ymwelwyr, arlwyo, gwybodaeth ddwyieithog<br>• ffactorau cynaliadwyedd – megis ailgylchu, cyfranogiad Glanhau Moroedd Cymru, defnyddio cynnyrch lleol, cadw egni, rheoli niferoedd ymwelwyr<br>• cyfleusterau hygyrchedd – megis toiledau hygyrch, llwybrau cyfeillgar i gadeiriau olwyn, dolenni clywed. |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd.2026.

## 3.2 Cynllunio a datblygu taith

Yn y testun hwn, bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau yn y meysydd canlynol:
3.2.1 Datblygu cynnig am daith
3.2.2 Cynllunio taith

| Adran | Ymhelaethiad |
|---|---|
| 3.2.1<br>Datblygu cynnig am daith | Bydd dysgwyr yn gallu:<br>• datblygu cynnig am daith gan gynnwys elfennau allweddol:<br>  ◦ manylion y cyrchfan: megis lleoliad, atyniadau allweddol, rhesymau dros ei ddewis<br>  ◦ amcanion: yr hyn y bwriedir i'r daith ei gyflawni (megis addysgiadol, hamdden, diwylliannol)<br>  ◦ ymwelwyr targed: Ar gyfer pwy y cynlluniwyd y daith a pham<br>  ◦ hyd a dyddiadau: megis amseroedd dechrau a gorffen, ystyriaethau tymhorol<br>  ◦ cludiant a llety: megis dewisiadau, costau, hygyrchedd<br>  ◦ dadansoddiad o weithgareddau<br>  ◦ cyllideb: megis costau amcangyfrifedig ar gyfer teithio, llety, prydau, taliadau mynediad<br>  ◦ ystyriaethau iechyd a diogelwch: megis ymwybyddiaeth o risg, cysylltau mewn argyfwng, yswiriant<br>  ◦ ystyriaethau cynaliadwyedd: megis arferion ecogyfeillgar, effaith leol<br>• cyflwyno cynigion gan ddefnyddio:<br>  ◦ strwythur a chynllun clir<br>  ◦ defnyddio delweddau (megis mapiau, ffotograffau, siartiau)<br>  ◦ iaith berswadiol i ennyn diddordeb y gynulleidfa. |
| 3.2.2<br>Cynllunio taith | Dylai dysgwyr allu cynllunio taith, gan gynnwys:<br>• gosod nodau ac amcanion<br>• trefnu gweithgareddau mewn trefn resymegol, er enghraifft: bwcio gweithgareddau, cludiant, llety, pennu amser a dyddiad, anfon gwybodaeth allweddol, cynnal cyfarfodydd, cadarnhau niferoedd<br>• nodi'r adnoddau sydd eu hangen, er enghraifft: cludiant, llety, cyllideb (costau), technoleg bwcio<br>• gofynion diogelwch a chyfreithiol gan gynnwys cynllun hygyrchedd<br>• cynllunio wrth gefn. |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd.2026.

**3.3 Marchnata a chyfathrebu taith**

Yn y testun hwn, bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau yn y meysydd canlynol:

3.3.1 Cynhyrchu deunyddiau marchnata
3.3.2 Datblygu amserlen deithio
3.3.3 Casglu adborth
3.3.4 Cyflwyno taith

| Adran | Ymhelaethiad |
|---|---|
| 3.3.1<br>Cynhyrchu deunyddiau marchnata | Dylai dysgwyr allu creu deunyddiau marchnata i hyrwyddo taith, gan gynnwys:<br>• dewis dull addas o farchnata sy'n briodol i'r grŵp ymwelwyr, er enghraifft: postiad cyfryngau cymdeithasol, poster, taflen, marchnata ar y cyfryngau ar-lein (gwefan/negeseuon e-bost)<br>• sicrhau bod y dull yn afaelgar<br>• cynnwys gwybodaeth allweddol, er enghraifft: amser a dyddiad, lleoliad a phwrpas y daith. |
| 3.3.2<br>Datblygu amserlen deithio | Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol:<br>• cynhyrchu amserlen deithio ar gyfer taith sy'n ymgorffori anghenion perthnasol ymwelwyr gan gynnwys:<br>    • llety<br>    • gweithgareddau<br>    • manylion cyswllt<br>    • cost<br>    • amserlen<br>    • map yn dangos y llwybr neu uchafbwyntiau lleoliad<br>    • cludiant<br>• cyflwyno'r amserlen teithio gan ddefnyddio:<br>    • strwythur a chynllun clir<br>    • delweddau (megis mapiau, ffotograffau, siartiau). |
| 3.3.3<br>Casglu adborth | Dylai dysgwyr allu creu adnodd adborth (megis blychau sylwadau, fforymau, arolygon a holiaduron):<br>• i gasglu adborth ar ddeunyddiau marchnata, yr amserlen deithio arfaethedig a chyfathrebu am daith<br>• i goladu ymatebion<br>• sy'n cynnwys cwestiynau neu ysgogiadau perthnasol. |
| 3.3.4<br>Cyflwyno taith | Dylai dysgwyr allu cyfathrebu taith a'i hamserlen teithio gan gynnwys:<br>• trosolwg o'r daith a'i nodau<br>• gwybodaeth allweddol megis dyddiad, cost, llety a gweithgareddau<br>• ymateb i gwestiynau am y daith<br>• defnyddio'r adnodd adborth yn effeithiol. |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd.2026.

| 3.4 Adolygu cynllunio a chyfathrebu taith | |
|---|---|
| Yn y testun hwn, bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau yn y meysydd canlynol:<br>3.2.1 Adfyfyrio ar gynllunio a chyfathrebu taith<br>3.2.2 Gwerthuso perfformiad personol | |
| **Adran** | **Ymhelaethiad** |
| 3.4.1<br>Adfyfyrio ar gynllunio a chyfathrebu taith | Dylai dysgwyr allu defnyddio adborth i adfyfyrio ar sut y gwnaethon nhw gynllunio a chyfathrebu taith gan gynnwys:<br>• sut roedd y cynllun yn cyd-fynd â'r cynnig gwreiddiol, gyda rhesymau dros newidiadau<br>• effeithiolrwydd y deunyddiau marchnata<br>• sut roedd yr amserlen teithio fodloni anghenion ymwelwyr<br>• effeithiolrwydd y cyfathrebu ynghylch y daith<br>• unrhyw welliannau ar gyfer y daith. |
| 3.4.2<br>Gwerthuso perfformiad personol | Dylai dysgwyr allu:<br>• nodi cryfderau a gwendidau personol mewn perthynas â'r canlynol:<br>  ◦ ymchwilio<br>  ◦ cynllunio<br>  ◦ cyfathrebu<br>• nodi meysydd gwella personol mewn perthynas â'u gwendidau. |

## Cyfleoedd ar gyfer integreiddio profiadau dysgu sy'n ymwneud â'r byd gwaith

Mae'r uned hon yn creu cyfleoedd i ddatblygu'r profiadau dysgu canlynol (ni fydd y profiadau yn cael eu hasesu'n uniongyrchol):

- Rhyngweithio â siaradwyr gwadd o'r diwydiant teithio a thwristiaeth i gael mewnwelediad uniongyrchol i arferion a disgwyliadau'r byd go iawn
- Gofyn cwestiynau a thrafod tueddiadau, heriau ac arloesiadau cyfredol yn y sector gyda gweithwyr proffesiynol o'r diwydiant
- Datblygu sgiliau rhwydweithio drwy ymgysylltu â staff teithio a thwristiaeth
- Ymweld â chyrchfannau neu gyfleusterau i dwristiaid er mwyn deall y profiad teithio a thwristiaeth yn uniongyrchol
- Cynllunio a chynnal taith teithio a thwristiaeth

Bydd gwybodaeth bellach i'w chael yn y Canllawiau Addysgu o ran y cyfleoedd y mae'r cymhwyster yn eu cynnig i athrawon/canolfannau i integreiddio'r profiadau a'r sgiliau dysgu hyn wrth ei gyflwyno.

Gweler Atodiad A am gyfleoedd i ddatblygu themâu trawsbynciol, sgiliau trawsgwricwlaidd a sgiliau cyfannol.

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd.2026.

# 3.Asesu

Bydd y Pecyn Asesu yn cynnwys yr holl wybodaeth fanwl sy'n ymwneud ag asesu.

## 3.1. Amcanion Asesu a Phwysoliadau

Mae amcanion asesu'r cymhwyster hwn wedi'u nodi isod. Rhaid i ddysgwyr wneud y canlynol:

**AA1**
Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o deithio a thwristiaeth

**AA2**
Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o deithio a thwristiaeth

**AA3**
Dehongli a gwerthuso e.e., gwybodaeth/syniadau/tystiolaeth yn y diwydiant teithio a thwristiaeth

**AA4**
Dangos a chymhwyso sgiliau mewn cyd-destunau teithio a thwristiaeth

Mae'r tabl isod yn dangos pwysoliad pob amcan asesu ar gyfer pob uned ac ar gyfer y cymhwyster cyfan.

| | AA1 | AA2 | AA3 | AA4 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| Uned 1 | 10% | 10% | - | - | 20% |
| Uned 2 | - | - | 10% | 10% | 20% |
| Uned 3 | - | - | 10% | 50% | 60% |
| Pwysoliad cyffredinol | **10%** | **10%** | **20%** | **60%** | **100%** |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd.2026.

## 3.2. Trosolwg o'r  asesu

**Uned 1: Trosolwg**

Asesir yr uned hon trwy brawf sector sy'n cael ei osod a'i farcio'n allanol a fydd ar gael yn ystod cyfres mis Ionawr a chyfres yr haf. Mae'n ofynnol i ddysgwyr gwblhau prawf sector byr, un awr, sydd wedi'i gynllunio i asesu gwybodaeth a dealltwriaeth sylfaenol (AA1 ac AA2 yn unig).

Bydd y prawf yn cael ei farcio allan o 50. Bydd Adran A yn asesu AA1 (25 marc) ac yn cynnwys amrywiaeth o fathau o gwestiynau gwrthrychol, megis cwestiynau dewis lluosog, ymateb lluosog, llenwi'r bwlch, llusgo a gollwng, a chwestiynau man poeth. Bydd Adran B yn asesu AA2 (25 marc) ac yn cynnwys amrywiaeth o fathau o gwestiynau gwrthrychol ynghyd â chwestiynau ateb byr. Efallai y bydd senarios ysgogiad byr yn cael eu darparu fel rhan o'r cwestiynau hyn.

Rhaid i'r prawf gael ei gymryd o dan amodau arholiad a oruchwylir yn unol â gofynion CGC (gweler http://www.jcq.org.uk/exams-office/ice---instructions-for-conducting-examinations).

Bydd yr asesiad cyntaf yn digwydd ym mis Ionawr 2028. Gall canolfannau gofrestru ymgeiswyr ar gyfer fersiwn copi caled neu ar sgrin o'r prawf.

Mae'r prawf hwn yn cyfrannu 20% o gyfanswm gradd y cymhwyster ac mae'n cael ei osod a'i farcio'n allanol gan CBAC.

**Uned 2: Trosolwg**

Asesir yr uned hon trwy asesiad di-arholiad sy'n cael ei osod a'i farcio'n allanol. Mae gofyn i ddysgwyr gwblhau cyfres o dasgau yn seiliedig ar friff sy'n cael ei osod yn allanol. Bydd y briff yn enwi gwlad a bydd dysgwyr yn gallu dewis cyrchfan o fewn y wlad honno. Bydd dysgwyr yn datblygu ffeil ffeithiau cynhwysfawr ar eu cyrchfan dewisol.

Bydd y briff yn cael ei ryddhau drwy'r Porth yn ystod wythnos gyntaf mis Medi i'w asesu yn y flwyddyn academaidd honno. Bydd yr aseiniad yn newid yn flynyddol. Ni ddylai dysgwyr gael mynediad i'r aseiniad na'r tasgau tan ddechrau'r asesiad. Bydd gan ganolfannau'r hyblygrwydd i drefnu'r asesiad ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn academaidd.
Mae'r asesiad di-arholiad hwn yn cyfrannu 20% o gyfanswm gradd y cymhwyster a bydd yn cymryd chwe awr i'w gwblhau. Dylid trefnu dwy awr arall ar gyfer ymchwil cyn cwblhau'r tasgau. Gall canolfannau ddewis cyflwyno'r asesiad mewn un sesiwn neu ar draws sawl sesiwn fyrrach, yn dibynnu ar anghenion dysgwyr a hyd y tasgau. Bydd yr asesiad yn cael ei farcio allan o 50 marc.

Rhaid cyflwyno'r asesiad yn ddigidol, naill ai fel ymatebion wedi'u hysgrifennu â llaw a'u sganio, neu wedi'u cwblhau'n ddigidol.

**Uned 3: Trosolwg**
Bydd yr uned hon yn cael ei hasesu drwy asesiad di-arholiad wedi'i osod yn allanol, a fydd yn cael ei farcio gan y ganolfan a'i gymedroli'n allanol gan CBAC. Mae gofyn i ddysgwyr gwblhau cyfres o dasgau yn seiliedig ar friff sy'n cael ei osod yn allanol.

Bydd y briff yn cael ei ryddhau trwy'r Porth ac ni fwriedir iddo newid dros hyd oes y fanyleb. Cyfrifoldeb y ganolfan yw sicrhau eu bod yn defnyddio fersiwn gyfredol yr asesiad fel y'i cyhoeddwyd ar y Porth. Bydd gan ganolfannau'r hyblygrwydd i drefnu'r asesiad ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn academaidd.

© WJEC CBAC Ltd.2026.

Mae'r asesiad di-arholiad hwn yn cyfrannu 60% o gyfanswm gradd y cymhwyster ac mae wedi'i gynllunio i gymryd tua 15 awr i'w gwblhau. Gall canolfannau ddewis cyflwyno'r asesiad mewn un sesiwn neu ar draws sawl sesiwn fyrrach, yn dibynnu ar anghenion dysgwr a hyd y tasgau. Bydd yr asesiad yn cael ei farcio allan o 90 marc.

Rhaid cyflwyno tystiolaeth ar gyfer cymedroli allanol yn ddigidol, naill ai fel ymatebion wedi'u hysgrifennu â llaw a'u sganio, neu wedi'u cwblhau'n electronig.

## 3.3. Rheoli'r asesiad di-arholiad

Mae'r asesiad di-arholiad wedi'i strwythuro ar draws tri chyfnod allweddol: gosod tasgau, gwneud tasgau, a marcio tasgau.

Rhaid i bob asesiad di-arholiad gadw at yr egwyddorion a nodir yn nogfennau'r *CGC Cyfarwyddiadau ar gyfer Cynnal Asesiadau Di-arholiad (Cymwysterau Galwedigaethol a Thechnegol)* a CGC Defnyddio Deallusrwydd Artiffisial (AI) mewn Asesiadau: Diogelu Uniondeb Cymwysterau. Noder **nad** yw canllawiau'r CGC ar gyfer cymwysterau TAG a TGAU yn berthnasol i'r cymhwyster hwn.

### Gosod Tasgau

Darperir pecynnau asesu ar gyfer pob uned yn unol â'r trefniadau a nodir yn 3.2.

### Gwneud Tasgau

Mae cwblhau'r asesiad di-arholiad yn cael ei lywio gan ddau gam:
- y cam ymchwil
- cam yr Asesiad Di-arholiad.

Efallai y gofynnir i ddysgwyr gynnal gwaith ymchwil fel rhan o'r cam ymchwil, gellir dod o hyd i wybodaeth am y cam ymchwil gan gynnwys dull ymchwil a chyfeirio, yn y pecyn asesu.

Yn ystod cam yr asesiad di-arholiad gellir dod o hyd i wybodaeth am yr amodau asesu, wedi'u categoreiddio fel uchel, canolig ac isel yn y pecyn asesu. Gellir hefyd dod i hyd i wybodaeth am adnoddau, wedi'u categoreiddio fel dim, penodol, ac wedi'u caniatáu yn y pecyn asesu.

Mae rhagor o wybodaeth am y cam ymchwil a cham yr asesiad di-arholiad, gan gynnwys gwybodaeth am y defnydd o ddeallusrwydd artiffisial ar gael yn y dogfennau Cynnal Asesiad Di-arholiad mewn Cymwysterau Cenedlaethol 14–16 – Canllaw i Athrawon a Cynnal Asesiad Di-arholiad mewn Cymwysterau Cenedlaethol 14–16 – Canllaw i Ymgeiswyr.

Mae ystyriaethau eraill wrth wneud tasgau, yn cynnwys:
- Amser: Mae pob pecyn asesu yn nodi cyfanswm yr amser sydd ar gael; rhoddir amser awgrymedig ar gyfer pob tasg er y gall ymgeiswyr ddyrannu'r amser hwn ar draws tasgau fel bo'n briodol.
- Goruchwylio a dilysu: Mae'r pecyn asesu yn nodi'r gofynion goruchwylio. Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd dysgwyr yn cael eu goruchwylio gan athro wrth gwblhau tasgau asesu. Gall athrawon egluro gofynion tasgau ond rhaid iddynt beidio â rhoi adborth ar y dystiolaeth sy'n cael ei chynhyrchu. Rhaid i ddysgwyr ac athrawon lofnodi datganiadau sy'n cadarnhau dilysrwydd y gwaith a gyflwynwyd.

© WJEC CBAC Ltd.2026.

## Marcio Tasgau

Ar gyfer asesiad di-arholiad wedi'i farcio gan y ganolfan, rhaid i'r holl farcio gael ei wneud gan athro dynodedig sydd ag arbenigedd pwnc priodol, gan ddefnyddio'r meini prawf marcio a ddarperir yn y pecyn asesu. Mae'n rhaid i'r dystiolaeth gyd-fynd â'r disgwyliadau sydd wedi'u nodi yn y pecyn asesu.

Mae'n rhaid anodi tystiolaeth ysgrifenedig er mwyn dangos sut mae'n bodloni'r meini prawf marcio.

Lle bo angen, rhaid dogfennu tystiolaeth perfformio (er enghraifft, cyflwyniadau) gan ddefnyddio cofnodion arsylwi sy'n cynnwys sylwadau disgrifiadol a chrynodol.

Mae athrawon yn gyfrifol am sicrhau'r canlynol:
- bod yr asesiad yn cael ei gynnal yn unol â disgwyliadau'r pecyn asesu a chanllawiau CGC
- bod dyfarniadau yn cael eu gwneud yn erbyn y datganiadau band perfformio yn unig
- bod y dystiolaeth yn ddilys, wedi'i hanodi'n glir, ac wedi'i chofnodi'n gywir
- pan ddefnyddir cofnodion arsylwi, eu bod yn cynnwys digon o fanylion i gefnogi penderfyniadau asesu.

## 3.4. Ailgyflwyno asesiadau di-arholiad

Gall athrawon ganiatáu un cyfle i ddysgwr wella ei dystiolaeth a'i hailgyflwyno i'w marcio cyn cyflwyno'r marciau terfynol i'w cymedroli. Ailgyflwyno yw'r enw ar y broses hon.

Rhaid trefnu'r asesiad mewnol yn ddigon ymlaen llaw i allu caniatáu digon o amser i gynnwys y cyfnod ailgyflwyno hwn, lle bo angen gwneud hynny, cyn y cymedroli allanol. Rhaid i ddysgwyr gwblhau'r asesiad cyflawn cyn i'w gwaith gael ei farcio yn y lle cyntaf, a chyn awdurdodi unrhyw ailgyflwyno sydd ei angen.

Rhaid i unrhyw adborth a roddir i ddysgwyr:
- fod yn ffeithiol, ac yn seiliedig ar yr hyn a welwyd yn eu gwaith.
- osgoi cyfarwyddo dysgwyr ar sut i wella eu marc
- gael ei ddogfennu a'i ddarparu i'w gymedroli'n allanol os gofynnir am hynny.

Rhaid i athrawon beidio â:
- chaniatáu sawl ailgyflwyniad ar sail mân newidiadau yn dilyn adborth
- caniatáu i ddysgwyr ychwanegu, newid, neu ddileu unrhyw waith ar ôl i'r ailgyflwyniad gael ei farcio.

Nid yw'n ofynnol i ddysgwyr gynhyrchu set hollol newydd o dystiolaeth ar gyfer ailgyflwyniad. Dylent ganolbwyntio ar y meysydd lle na wnaethant ennill y marc a ddymunwyd. O ganlyniad, efallai na fydd angen yr amser llawn a nodir yn y pecyn asesu, er y gallant ddefnyddio hyd at y dyraniad llawn os oes angen. Mae'r pecyn asesu yn nodi faint o amser yn fras y dylai dysgwyr ei dreulio yn cwblhau pob tasg. Pan fydd dysgwyr yn canolbwyntio ar dasgau penodol i'w hailgyflwyno, ni ddylai'r amser a ganiateir fod yn fwy na chyfanswm yr amser a awgrymir ar gyfer y tasgau hynny.

Nid oes angen creu taflen gyflwyno marciau ymgeisydd ar wahân i'w hailgyflwyno; Gellir diweddaru'r daflen wreiddiol gyda'r marciau diwygiedig a sylwadau ychwanegol. Dylai canolfannau gadw cofnodion mewnol o ailgyflwyniadau i ddarparu llwybr archwilio clir, a fydd yn ddefnyddiol os bydd ymholiadau'n codi. Dim ond y marciau terfynol a'r dystiolaeth sydd angen eu cyflwyno ar gyfer cymedroli allanol.

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd.2026.

Unwaith y bydd marciau wedi'u cyflwyno i'w cymedroli, ni chaniateir ailgyflwyno'r un asesiad eto. Un cyfle sydd ar gael i ddysgwyr ailsefyll yr asesiad yng nghyfresi asesu'r dyfodol. Wrth ailsefyll asesiad, rhaid i ganolfannau sicrhau bod dysgwyr yn defnyddio briff yr asesiad a ryddhawyd ar gyfer y gyfres honno. (gweler Adran 5.4).

## 3.5. Camymddwyn

Cyn dechrau'r cwrs, cyfrifoldeb athrawon yw rhoi gwybod i ymgeiswyr am reoliadau CBAC ynglŷn â chamymddwyn. Rhaid i ymgeiswyr beidio ag ymddwyn yn annheg mewn unrhyw ffordd wrth baratoi gwaith ar gyfer TAAU Teithio a Thwristiaeth.

Ceir gwybodaeth am gamymddwyn yn ein Canllaw i atal, adrodd am ac ymchwilio i gamymddwyn.

Rhaid rhoi gwybod i CBAC ar unwaith am bob achos o gamymddwyn posibl neu gamymddwyn gwirioneddol (camymddwyn@cbac.co.uk). Os bydd ymgeiswyr yn camymddwyn, mae'n bosibl y byddant yn cael eu cosbi neu eu diarddel o'r arholiadau.

Ym mhob achos o gamymddwyn, cynghorir canolfannau i ddilyn cyngor llyfryn y CGC Amau Camymddwyn: Polisïau a Gweithdrefnau.

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd.2026.

.

# 4.Gwybodaeth Dechnegol

## 4.1. Cofrestriadau unedau

Cymhwyster unedol yw hwn. Caiff ymgeiswyr eu cofrestru ar gyfer pob uned ar wahân.

Bydd cyfleoedd asesu ar gael yn ystod cyfnod asesu mis Ionawr a mis Mehefin bob blwyddyn, tan diwedd oes y fanyleb.

Bydd Uned 1 ac Uned 2 ar gael ym mis Ionawr 2028 (ac ym mhob cyfres mis Mehefin a mis Ionawr wedi hynny). Bydd Uned 3 ar gael ym mis Ionawr 2029 (ac ym mhob cyfres mis Ionawr a mis Mehefin wedi hynny).

Rhaid cofrestru am unedau unigol drwy gyflwyno'r uned berthnasol sydd i'w gweld isod.

| | | Codau Cofrestru | |
|---|---|---|---|
| | | Cyfrwng Saesneg | Cyfrwng Cymraeg |
| Uned 1 | Prawf Sector | | |
| Uned 2 | Asesiad di-arholiad allanol | | |
| Uned 3 | Asesiad di-arholiad | | |

Os cofrestrwyd ymgeisydd am uned ond ei fod yn absennol ar gyfer yr uned honno, nid yw'r absenoldeb yn cyfrif fel ymgais.

## 4.2. Cofrestru ar gyfer y cymhwyster

Bydd y cymhwyster yn cael ei ddyfarnu am y tro cyntaf yn haf 2029.

Caiff ymgeiswyr eu cofrestru ar gyfer y cymhwyster drwy’r broses agregu (cyfnewid).

Nid yw'r broses agregu'n digwydd yn awtomatig; rhaid nodi'r cod perthnasol er mwyn agregu.

| | Cyfrwng Saesneg | Cyfrwng Cymraeg |
|---|---|---|
| Cod cyfnewid | | |

Mae rhifyn cyfredol ein dogfen Dulliau Cofrestru a Gwybodaeth am y Codau yn rhoi'r dulliau cofrestru diweddaraf.

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd.2026.

## 4.3. Graddio ac adrodd yn ôl

Mae cymwysterau TAAU a'r unedau maen nhw'n eu cynnwys yn cael eu hadrodd ar raddfa chwe phwynt: Lefel 2 Rhagoriaeth* (L2Rh*) Lefel 2 Rhagoriaeth (L2Rh), Lefel 2 Teilyngdod (L2T), Lefel 2 Llwyddiant (L2Ll), Lefel 1 Teilyngdod (L1T), Lefel 1 Llwyddiant (L1Ll).

Adroddir canlyniadau unedau unigol ar raddfa marciau unffurf (GMU) ac maen nhw’n cyfateb i'r graddau canlynol:

| | Uchafswm | L2Rh* | L2Rh | L2T | L2Ll | L1T | L1Ll |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Uned 1 | 60 | 54 | 48 | 42 | 36 | 30 | 24 |
| Uned 2 | 60 | 54 | 48 | 42 | 36 | 30 | 24 |
| Uned 3 | 180 | 162 | 144 | 126 | 108 | 90 | 72 |

Mae'r marciau unffurf a enillwyd am bob uned yn cael eu hadio at ei gilydd a bydd gradd y cymhwyster yn seiliedig ar y cyfanswm hwn.

| | Uchafswm | L2Rh* | L2Rh | L2T | L2Ll | L1T | L1Ll |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cymhwyster | 300 | 270 | 240 | 210 | 180 | 150 | 120 |

Os nad yw ymgeiswyr yn ennill y nifer gofynnol o farciau unffurf i ennill Lefel 1 Llwyddiant yna cofnodir eu cyrhaeddiad fel U (annosbarthedig) ac ni fyddant yn derbyn tystysgrif.

## 4.4. Ailsefyll asesiadau unedau

Gall ymgeiswyr ailsefyll pob asesiad uned allanol (wedi'i farcio gan CBAC) ddwywaith (tri chynnig i gyd). Defnyddir y sgôr marciau unffurf gwell o'r tri chynnig i gyfrifo'r radd derfynol gyffredinol.

Gall ymgeiswyr ailsefyll pob asesiad uned mewnol (wedi'i farcio gan y ganolfan) unwaith (dau gynnig i gyd). Defnyddir y sgôr marciau unffurf gwell o'r ddau gynnig i gyfrifo'r radd derfynol gyffredinol.

Wrth ailsefyll asesiad, mae'n rhaid i'r ymgeisydd gyflwyno asesiad newydd, wedi'i gwblhau o fewn yr un lefelau rheolaeth. Ni chânt wella gwaith a gyflwynwyd yn flaenorol.

Os bydd ymgeisydd wedi'i gofrestru ar gyfer asesiad ond ei fod yn absennol (a), nid yw'r absenoldeb yn cyfrif fel ymgais.

Os cofnodir bod ymgeisydd wedi cael ‘0’ marc, yna tybir nad oedd y dystiolaeth a gynhyrchwyd i'w hasesu yn haeddu marciau; bydd hyn yn cyfrif fel ymgais.

Wrth ailsefyll asesiad, ar yr amod nad yw'r ymgeisydd wedi defnyddio mwy na'r nifer mwyaf o gynigion, bydd marciau o'r unedau eraill yn cael eu trosglwyddo.

Os bydd ymgeisydd yn mynd dros y nifer o gynigion ar gyfer unrhyw asesiad, yna bydd gofyn iddyn nhw ailwneud y cymhwyster.

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd.2026.

## 4.5. Ailwneud y cymhwyster

Os bydd ymgeisydd yn cofrestru am asesiad allanol (wedi'i farcio gan CBAC) am y pedwerydd tro neu asesiad mewnol (wedi'i farcio gan y ganolfan) am y trydydd tro, yna mae'n rhaid ailgofrestru ac ailsefyll pob asesiad.

Wrth ailwneud cymhwyster, gall ymgeisydd gael hyd at dri chynnig ar bob asesiad wedi'i farcio gan CBAC a hyd at ddau gynnig ar bob asesiad di-arholiad wedi'i farcio gan y ganolfan. Fodd bynnag, ni ellir defnyddio canlyniadau o unedau a safwyd cyn ailsefyll wrth agregu'r radd (graddau) newydd.

DRAFFT

© WJEC CBAC Ltd.2026.

# Atodiad A: Cyfleoedd i ymgorffori elfennau o'r Cwricwlwm i Gymru

Mae'r tabl isod yn dangos ble mae'r cymhwyster yn cynnig cyfleoedd i ymgorffori elfennau o'r Cwricwlwm i Gymru. Mae gwybodaeth fanylach wedi'i chynnwys yn y Canllawiau Addysgu: Canllawiau Cyflwyno'r Unedau.

| Llinynnau Cwricwlwm i Gymru | Uned 1 | Uned 2 | Uned 3 |
|---|---|---|---|
| Themâu Trawsbynciol | | | |
| Cyd-destunau Lleol, Cenedlaethol a Rhyngwladol | 1.1.1, 1.1.2, 1.2.1, 1.2.2, 1.2.3 | Pob Adran | 3.1.1 |
| Cynaliadwyedd | 1.2.3, 1.3.1 | 2.2.1, 2.2.2, 2.3.1, 2.3.2, 2.3.3 | 3.1.3, 3.1.4, 3.2.1, 3.4.1 |
| Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb | 1.3.2x | 2.2.1, 2.2.2, 2.2.3, 2.3.1, 2.3.2 | 3.1.1 |
| Addysg Hawliau Dynol | 1.3.2 | 2.2.2, 2.3.1, 2.3.2, 2.3.3 | 3.1.1, 3.2.1, 3.2.2 |
| Gyrfaoedd a Phrofiadau sy'n Gysylltiedig â Byd Gwaith | 1.2.1, 1.2.2, 1.2.3 | 2.4 | Pob adran |
| Sgiliau Trawsgwricwlaidd – Llythrennedd | | | |
| Gwrando | Pob adran | 2.1.1, 2.1.2, 2.1.3, 2.2.1, 2.2.2, 2.2.3, 2.3.1, 2.3.2, 2.3.3, 2.4.1 | Pob adran |
| Darllen | Pob adran | 2.1.1, 2.1.2, 2.1.3, 2.2.1, 2.2.2, 2.2.3, 2.3.1, 2.3.2, 2.3.3, 2.4.1 | Pob adran |
| Siarad | Pob Adran | 2.1.1, 2.1.2, 2.1.3, 2.2.1, 2.2.2, 2.2.3, 2.3.1, 2.3.2, 2.3.3, 2.4.1, 2.4.3 | Pob adran, yn arbennig 3.3.4 |
| Ysgrifennu | Pob adran | Pob adran | Pob adran |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd.2026.

| Sgiliau Trawsgwricwlaidd – Rhifedd | | | |
|---|---|---|---|
| Datblygu Hyfedredd Mathemategol | 1.3.3 | 2.3.1, 2.3.2, 2.3.3 | 3.1.1, 3.2.1, 3.2.2, 3.3.3 |
| Mae deall y system rifau yn ein helpu ni i gynrychioli a chymharu'r perthnasoedd rhwng rhifau a meintiau | 1.3.3 | 2.3.1, 2.3.2, 2.3.3 | 3.1.1, 3.2.1, 3.4.1 |
| Mae dysgu am geometreg yn ein helpu ni i ddeall siâp, gofod a safle, ac mae dysgu am fesur yn ein helpu i feintioli yn y byd go iawn | | | |
| Mae dysgu bod ystadegau yn cynrychioli data a bod tebygolrwydd yn modelu siawns yn ein helpu ni i wneud casgliadau a phenderfyniadau gwybodus | 1.3.3 | 2.3.1, 2.3.2, 2.3.3 | 3.1.1, 3.4.1 |
| Cymhwysedd Digidol | | | |
| Dinasyddiaeth | 1.1.3, 1.3.3 | 2.3.1, 2.3.2. 2.3.3, 3.4.1 | 3.1.1, 3.1.2, 3.1.3, 3.1.4 |
| Rhyngweithio a Chydweithio | 1.1.3, 1.2.3. 1.3.1, 1.3.3 | 2.1.1, 2.1.2, 2.1.3, 2.2.1, 2.2.2, 2.2.3, 2.3.1, 2.3.2, 2.3.3, 2.4.1 | 3.1.1, 3.1.2, 3.1.3, 3.1.4, 3.3.1, 3.4.2 |
| Cynhyrchu | 1.1.3, 1.2.1, 1.2.2, 1.2.3, 1.3.1, 1.3.2, 1.3.3 | 2.2.3, 2.4.1, 2.4.2, 2.4.3 | 3.2.1, 3.2.2, 3.3 i gyd, 3.4 i gyd |
| Data a Meddwl Cyfrifiannol | 1.3.3 | 2.2.2, 2.3.1, 2.3.2, 2.3.3 | 3.1.1 |
| Sgiliau Cyfannol | | | |
| Creadigrwydd ac Arloesi | 1.2.3, 1.3.1, 1.3.2,1.3.3 | 2.1.1, 2.1.2, 2.2.1, 2.2.2, 2.2.3, 2.3.3, 2.4.3 | 3.2.1, 3.3.1, 3.3.2, 3.3.3, 3.3.4 |
| Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau | 1.1.3, 1.2.2, 1.2.3, 1.3.1, 1.3.2, 1.3.3 | 2.2.1, 2.2.2, 2.2.3, 2.3.1, 2.3.2, 2.3.3, 2.4.1 | Pob adran |
| Cynllunio a Threfnu | 1.2.3, 1.3.1, 1.3.2 | 2.2.3, 2.3.3, 2.4.1, 2.4.2, 2.4.3 | 3.2.1, 3.2.2. 3.3.2 |
| Effeithiolrwydd Personol | 1.2.2, 1.2.3, 1.3.1 | Pob adran | 3.4.2 |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd.2026.